Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adroddiad Blynyddol 2017-18

Trosolwg ar Amcanion a Chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Rhagarweiniad **1**

Amcanion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol **3**

Strwythur y Bwrdd **4**

(a) Aelodaeth **7**

(s) Camau a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau **9**

(c) Y graddau yr ydym wedi gweithredu ein cynlluniau blynyddol strategol **10**

(ch) Sut rydym wedi cydweithio gyda chyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y Bwrdd **20**

(d) Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys dan Adran 137(1) ac a gydymffurfiwyd â'r rhain? **23**

(dd) Yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn **24**

(e) I ba raddau mae asiantaethau wedi cyfrannu i effeithiolrwydd y Bwrdd **29**

(f) Asesiad o'r modd y mae'r Bwrdd yn defnyddio'i adnoddau **39**

(ff) Themâu sylfaenol yn y ffordd y mae Byrddau Diogelu wedi ymarfer eu swyddogaethau **41**

(g) Pryd a sut mae oedolion a phlant wedi cael y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd **44**

(ng) Ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion **51**

(h) Gwybodaeth neu ddysgu y mae'r Byrddau wedi eu lledaenu a'r hyfforddiant a argymhellwyd neu a ddarparwyd **51**

(i) Y ffordd y mae Byrddau Diogelu wedi gweithredu'r cyngor gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol **54**

Y gwahaniaeth yr ydym ni'n ei wneud gyda'n gilydd **55**

Rhestr Termau **56**

Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn erbyn y deilliannau a bennwyd gan CYSUR ym mis Mawrth 2017 fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol. Mae'r Bwrdd wedi aeddfedu yn y flwyddyn ddiwethaf i un lle mae cydweithredu effeithiol a her yn rhan o fusnes bob dydd.

Gallwn ddangos sut yr ydym wedi dylanwadu ar yr agenda Genedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn ogystal â safoni'r defnydd o drothwyon mewn amddiffyn plant yn lleol. Mae rheolwyr a staff yn cydweithio'n dda yn awr ar draws asiantaethau a'r rhanbarth. Mae'n arbennig o braf nodi cynnydd ein Bwrdd Diogelu Iau. Mae meddwl amdanynt hwy yn bresennol ym mhob Bwrdd yn y dyfodol yn un cyffrous ac yn adlewyrchu'n dda ar y gwaith y maent wedi'i wneud a'r hyder sydd gan y Bwrdd yn y bobl ifanc wych hyn.

Mae sefyllfa Gwasanaethau Plant Powys wedi bod yn destun pryder i ni i gyd ond mae'r arwyddion o welliant bellach i'w gweld a'r canlyniadau'n amlwg yn gwella. Mae'r gwersi ar sut mae gwasanaethau sensitif yn cael eu rheoli, yr angen hollbwysig i gadw staff rheng flaen ac i'r holl asiantaethau osgoi toriadau anghymesur ac afrealistig yn y gyllideb, i gyd yn wersi y mae'r rhanbarth wedi eu dysgu oddi wrth y profiad ym Mhowys. Rwyf yn hyderus bod y Bwrdd Diogelu yn awr mewn sefyllfa gryfach ac yn deall yn well yr angen i herio'i gilydd. Yn hollbwysig, mae gennym bellach y system ddata ac archwilio i'n galluogi i ddarparu cymorth a her i'n gilydd yn llawer cynharach er mwyn atal pethau rhag mynd o'u lle.

Mae cyd-weithio gyda CWMPAS wedi bod yn gadarnhaol ac mae gennym yn awr agenda sy'n fwy cyfoethog gyda'r gwahanol feysydd ymarfer yn y gwasanaethau plant ac oedolion yn awr yn dechrau cyfoethogi'i gilydd gydag ymarferwyr yn gweld y budd sy'n dod o fabwysiadu dull pob-oedran o amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Gwnaeth yr holl asiantaethau, ac eithrio Iechyd Cyhoeddus Cymru, y cyfraniad ariannol y cytunwyd arno, sydd mor allweddol i lwyddiant y Bwrdd.

Fe fydd yna heriau bob amser wrth darparu gwasanaethau mor gymhleth ar draws ardal ddaearyddol mor fawr, ond mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos cynnydd da yn glir wrth ddangos sut mae CYSUR bellach yn effeithio ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin



Roeddwn yn falch i dderbyn swydd Cadeirydd CWMPAS yn mis Ionawr 2017 a bod yn rhan o gynnydd a datblygiad parhaus y Bwrdd.

Mae'r adroddiad blynyddol yn disgrifio'n fanwl y cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn erbyn y deilliannau oedd wedi eu gosod gan Fwrdd CWMPAS fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol, a gyhoeddwyd ar yr 31ain o Fawrth 2017. Mae ymrwymiad yr aelodau i'r Bwrdd yn gryf ac mae hyn yn amlwg yn gymorth i'r daith o wneud gwelliannau. Mae'r Bwrdd yn dod yn gorff mwy cadarn, agored a heriol mewn ffordd adeiladol, ac yn datblygu'n barhaus. Mae ganddo ffocws clir ar ddiogelu oedolion agored i niwed.

Daeth yn gynyddol amlwg fod y Bwrdd yn gwella drwy ddilyn agenda fwy trawstoriadol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu pobl o safbwynt y 'bobl'. Mae'r adroddiad blynyddol yn cyfeirio at y gobaith yn y dyfodol o gynnal peilot ar y dull hwn ac rwyf yn croesawu hynny.

Bu'n arbennig o braf eleni gweld y cynnydd a wnaed ar weithdrefn gyson ynghylch y trothwy ar gyfer diogelu oedolion. Dangosodd hyn y cyfoeth o wybodaeth sydd gennym yn y rhanbarth a hefyd waith brwdfrydig ac ymrwymedig arbenigwyr diogelu oedolion ar draws y rhanbarth. Rwyf yn edrych ymlaen at weld y Bwrdd yn y flwyddyn sydd i ddod yn cymeradwyo'r weithdrefn ac felly'n cydnabod y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Is-grŵp am y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae CWMPAS yn mynd yn ei flaen yn dda ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd y flwyddyn nesaf i barhau i wella a mireinio ymarfer ar draws y rhanbarth i amddiffyn oedolion agored i niwed rhag y perygl o gamdriniaeth.

Jonathan Griffiths (Cadeirydd CWMPAS)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Penfro

Amcanion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Mae amcanion Byrddau Diogelu Rhanbarthol fel y'u hamlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel a ganlyn.

Amcanion **Bwrdd Diogelu Plant** yw:

- amddiffyn plant o fewn ei ardal sy'n profi, neu mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac
- atal plant o fewn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Amcanion **Bwrdd Diogelu Oedolion** yw:

- amddiffyn oedolion o fewn ei ardal –
  - sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a oes awdurdod lleol yn cwrdd â rhai o'r anghenion hynny neu beidio), ac
  - sy'n profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod, ac
- atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Arweiniad ynghylch swyddogaethau Byrddau Diogelu

Mae canolbwynt y Byrddau Diogelu yn ddeublyg. Mae'r ffocws ar amddiffyn plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed ac atal plant ac oedolion rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Dylai'r ddau amcan hyn lywio blaenoriaethau'r Byrddau Diogelu pan fyddant yn ystyried eu rhaglenni gwaith a'u cynlluniau blynyddol, ac yn adolygu eu perfformiad.

Mae cadw plant ac oedolion, sydd ag anghenion gofal a chymorth, yn ddiogel yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel gyda'r rheiny y maent yn byw gyda hwy ac sy'n eu cynorthwyo ac yn gofalu amdanynt, yn ogystal â bod yn ddiogel mewn amgylcheddau y tu allan i'r cartref lle maent yn byw, teithio, chwarae, dysgu, gweithio neu'n cymryd rhan mewn chwaraeon, a gweithgareddau diwylliannol, hamdden a gweithgareddau eraill. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn gorffwys yn bennaf o fewn y teulu neu gyda gofalwyr ac o fewn y gymuned ehangach. Mae gan lawer o sefydliadau gyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion drwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn uniongyrchol iddynt, drwy'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd a gofalwyr neu drwy eu gwaith yn datblygu ac yn cryfhau cymunedau.

Strwythur y bwrdd

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Phowys, gan weithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth o fewn sefyllfa amlasiantaethol. Nod y Byrddau yw codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu gydag aelodau'r cyhoedd a rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Mae dau Fwrdd Diogelu yn gwasanaethu Canolbarth a Gorllewin Cymru:

- **CWMPAS** (Gweithio ar y cyd a Chynnal Partneriaeth mewn Diogelu Oedolion): Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, a;
- **CYSUR** (Diogelu Plant a Phobl Ifanc, yn uno'r rhanbarth): Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

Strwythur Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru



Byrddau Gweithredol:
Mae Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn gweithio gyda'i gilydd fel Bwrdd rhanbarthol trosfwaol i fonitro a gwella gweithgaredd diogelu rhanbarthol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Byrddau Gweithredol yn cynnwys uwch reolwyr o'r holl bartneriaid ac asiantaethau statudol allweddol (gweler y tabl aelodaeth). Nod y Bwrdd Gweithredol yw rhoi arweinyddiaeth ac arweiniad i'r holl asiantaethau sy'n perthyn iddo drwy gyflawni cyfres o flaenoriaethau strategol ar gyfer gweithgarwch ac ymarfer diogelu. Mae'r ddau Fwrdd Gweithredol yn cynorthwyo, yn arwain ac yn derbyn cyngor gan yr Is-grwpiau rhanbarthol.

Grwpiau Gweithredu Lleol:
Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal Grwpiau Gweithredu Lleol (GiauGLl). Mae pwrpas, aelodaeth a strwythur y Grwpiau hyn yn adlewyrchu rhai'r Byrddau Gweithredol. Fodd bynnag, amcan pennaf GiauGLl yw monitro a dadansoddi ymarfer diogelu yn lleol yn hytrach nag yn rhanbarthol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion, sy'n cadeirio'r grwpiau, rheolwyr uwch a rheolwyr canol o asiantaethau strategol lleol, gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r GiauGLl yn ceisio gwella ymarfer diogelu yn lleol drwy drafod gweithgaredd diogelu lleol mewn amgylchedd agored a thryloyw, gan rannu a dadansoddi data perfformiad lleol a chwblhau archwiliadau ymarfer er mwyn gwybod pa welliannau sydd eu hangen mewn ymarfer a chanfod perygl. Mae'r GiauGLl yn ceisio rhannu a chydnabod esiamplau o ymarfer diogelu da. At hynny, byddant yn herio'n broffesiynol ac yn galw asiantaethau i gyfrif pan fydd ymarfer diogelu yn syrthio'n is na'r safonau a ddisgwylir.

Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Rhanbarthol:
Mae is-grwpiau Adolygu Ymarfer Oedolion (APR) ac Adolygu Ymarfer Plant (CPR) yn ystyried atgyfeiriadau oddi wrth asiantaethau lle mae plentyn neu oedolyn, oedd mewn perygl, wedi marw neu wedi dioddef amhariad sylweddol ar ei iechyd a'i ddatblygiad o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae'r Is-grŵp APR/CPR rhanbarthol yn ystyried gwybodaeth yn erbyn y meini prawf diffiniedig a geir yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion, a Chyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant'. Wedyn mae'n gwneud argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol perthnasol p'un a oes deilliannau dysgu wedi eu canfod ac a ddylid cynnal APR/CPR er mwyn dysgu gwersi. Cynhelir adolygiadau ymarfer gan grŵp o weithwyr proffesiynol, amlasiantaethol, fydd gyda'i gilydd yn dadansoddi gwybodaeth ac yn nodi unrhyw themâu ymarfer a gwersi i'w dysgu. Wedi hynny caiff yr adroddiad ei gyhoeddi fel Adolygiad APR/CPR ar wefan y Byrddau.

Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol:
Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â'r Byrddau Gweithredol. Bwriad y Grŵp yw rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol drwy ddatblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol. Un amcan allweddol i'r Bwrdd eleni yw gweithio tuag at ddatblygu'r polisïau a'r gweithdrefnau lleol presennol yn rhai rhanbarthol er mwyn bod o gymorth i hyrwyddo ymateb sy'n fwy cyson i ymarfer diogelu ar draws y rhanbarth.

Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:
Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â'r Byrddau Gweithredol. Ei fwriad yw cefnogi ac arwain yr hyfforddiant a'r dysgu diogelu a ddarperir ar draws y pedwar awdurdod lleol a chyrff asiantaethol sy'n bartneriaid. Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithio'n agos gydag adrannau hyfforddi partneriaid er mwyn sicrhau a hybu ansawdd a chysondeb yn yr hyfforddiant diogelu a'r modd y mae'n cael ei ddarparu. Gall y grŵp gomisiynu hyfforddiant diogelu arbenigol, pwrpasol ar draws y rhanbarth ac mae'n gweithio'n agos gydag Is-grwpiau eraill megis Is-grwpiau APR/CPR er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeilliannau dysgu sydd wedi cael eu nodi o ganlyniad i Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion yn cael eu rhannu ymhlith staff.

Grŵp Strategol Trais yn erbyn Merched, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV):
Ar ôl peilot yn 2017, mae Grŵp Strategol VAWDASV wedi ei ymgorffori'n ffurfiol yn strwythur llywodraethu'r Bwrdd. Mae 'VAWDASV' yn effeithio ar holl ddinasyddion y rhanbarth ac mae'n cynnwys pob ffurf ar drais yn erbyn merched, trais seiliedig ar anrhydedd, priodasau gorfodol, Anffurfio Organau Cenhedlu (FGM), masnachu pobl, trais a chamfanteisio rhywiol, a chamdriniaeth ddomestig. Mae Grŵp Strategol VAWDASV yn gydweithrediad amlasiantaethol, sy'n gyrru gofynion **Deddf VAWDASV** ymlaen, gan gynnwys datblygu a gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Rhanbarthol.

CADW: Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau
Mae Bwrdd CYSUR yn parhau i gomisiynu Gwasanaeth Eiriol Annibynnol Tros Gynnal i hwyluso ei Fwrdd Diogelu Iau. Mae'r grŵp yn parhau i gynghori'r Byrddau Gweithredol ar faterion diogelu a phroblemau o safbwynt person ifanc drwy gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori. Mae Grŵp CADW yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei ategu gan dri grŵp diogelu iau lleol a phartneriaeth ieuenctid, gyda chysylltiad agos â'u Grwpiau Gweithredu Lleol.

(a) Aelodaeth

CWMPAS (Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)

Jonathan Griffiths (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyngor Sir Penfro

Anthony Griffiths (Vice-Chair)
Ditectif Uwch-arolygydd
Heddlu Dyfed Powys

Jake Morgan
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin

Carys James
Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Oedolion,
Cyngor Sir Ceredigion

Alison Bulman
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;
Cyngor Sir Powys

Sian Passey
Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Avril Bracey
Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion
Cyngor Sir Caerfyrddin Council

Donna Pritchard
Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Diogelu Oedolion, MCA a Chamddefnyddio Sylweddau Cyngor Sir Ceredigion

Jason Bennett
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Cyngor Sir Penfro

Louise Barry
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Cyngor Sir Powys

Christine Harley
Prif Weithredwr Cynorthwyol Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Deanne Martin
Prif Weithredwr Cynorthwyol Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol Cymru

Mandy Rayani
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Cleifion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhiannon Beaumont-Wood
Cyfarwyddwr Nyrsio
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Nicola Edwards
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Sonia Mason
Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol
(Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Karen Toohey
Nyrs ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nikki Harvey
Pennaeth Diogelu
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Hazel Lloyd-Lubran
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Ceredigion o Sefydliadau Gwirfoddol (CAVO)

Chris Harrison
Cynrychiolydd Rhanbarthol Penaethiaid Comisiynu

CYSUR (Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)

Jake Morgan (Chair)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin

Sian Passey (Vice-Chair)
Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Jonathan Griffiths
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Hamdden
Cyngor Sir Penfro

Carys James
Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Oedolion,
Cyngor Sir Ceredigion

Alison Bulman
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;
Cyngor Sir Powys

Anthony Griffiths
Ditectif Uwch-arolygydd
Heddlu Dyfed Powys

Stefan Smith
Pennaeth Gwasanaethau Plant
Cyngor Sir Caerfyrddin

Elfed Hopkins
Pennaeth Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant
Cyngor Sir Ceredigion

Anthony Maynard
Pennaeth Gwasanaethau Plant
Cyngor Sir Penfro

David Johnston
Pennaeth Dros dro Gwasanaethau Plant
Cyngor Sir Powys

Christine Harley
Prif Weithredwr Cynorthwyol Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Deanne Martin
Prif Weithredwr Cynorthwyol Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol Cymru

Mandy Rayani
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Cleifion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhiannon Beaumont-Wood
Cyfarwyddwr Nyrsio
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Nicola Edwards
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Sonia Mason
Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol (Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Karen Toohey
Nyrs ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nikki Harvey
Pennaeth Diogelu
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Hazel Lloyd-Lubran
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Ceredigion o Sefydliadau Gwirfoddol (CAVO)

Steve Davis
Cynrychiolydd Rhanbarthol Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid

Kate Evan-Hughes
Cynrychiolydd Rhanbarthol Cyfarwyddwyr Addysg

Dr Ingrid Prosser
Meddyg Enwebedig,
Amddiffyn Plant,
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dr Velupillai Vipulendran
Meddyg Enwebedig,
Amddiffyn Plant,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Uned Fusnes Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Julie Breckon
Rheolwr Busnes

Wendy Butcher
Cydgysylltydd Busnes

Elizabeth Thomas
Cefnogi Busnes

(b) Camau a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau

Cryfhau'r berthynas strategol rhwng y Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion
Cafwyd gwelliant pellach yng nghyfuniad ac aliniad agos strwythurau llywodraethu Byrddau CYSUR a CWMPAS yn 2017/18 ac mae'n awr yn dechrau dwyn ffrwyth yng ngwaith yr Is-grwpiau, sydd wedi gweithio ar y cyd ar nifer o fentrau a phrosiectau rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol, pob-oedran, amlasiantaethol, fydd yn cael ei chwblhau yn y flwyddyn i ddod, protocol ar y cyd ar gyfer rhieni y canfuwyd bod ganddynt anghenion iechyd meddwl, a chyhoeddi ymchwil thematig i hunanladdiadau ymhlith plant a phobl ifanc yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn parhau i gynnal eu cyfarfodydd gyda'i gilydd gydag adran drawstoriadol lwyddiannus iawn yn yr agenda, pan fydd materion diogelu pob-oedran yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae'r bwrdd yn glir y bydd y model hwn yn parhau i esblygu a datblygu dros y flwyddyn nesaf yn un Bwrdd Diogelu pob-oedran ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni heb aberthu cydganolbwynt trafodaeth y Bwrdd ac mae'n gwneud lle i agendâu oedolion a phlant. Trefnwyd i gynnal peilot o un cyfarfod gydag agenda gyfunol lawn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a chaiff hwnnw wedyn ei werthuso a'i ystyried fel model ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn y dyfodol.

Rhoi Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd am Berfformiad Rhanbarthol y Byrddau ar waith
Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd am Berfformiad Rhanbarthol a ddatblygwyd yn 2016/17, bellach wedi ei weithredu'n llawn. Ystyrir gweithredu'r fframwaith hwn yn gam arwyddocaol ymlaen i'r Byrddau gan ei fod yn galluogi'r Byrddau Gweithredol i ddeall ymarfer diogelu o fewn y rhanbarth yn well. Bydd gwerthusiad o'r modd y caiff ei ddefnyddio gan asiantaethau yn dilyn.

Datblygu Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer cynnal Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol
Mae datblygu'r Fframwaith hwn yn ategu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd am Berfformiad y Byrddau, gan ddarparu strwythur rhanbarthol cyson fydd yn ei gwneud yn bosibl ac yn gymorth i gynnal Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) i gefnogi dysgu a chynorthwyo i wella ymarfer diogelu proffesiynol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr rheng flaen ddysgu'n ôl-fyfyriol mewn amgylchedd diogel a rhannu arfer da. Yn y flwyddyn sydd i ddod gwelir y model hwn yn cael ei weithredu ochr yn ochr â datblygu fforwm rhanbarthol i reoli a goruchwylio achosion MAPF.

Cryfhau llywodraeth VAWDASV o fewn strwythur y Byrddau Diogelu Rhanbarthol
Ar ôl menter beilot gychwynnol, mae VAWDASV yn awr wedi ei sefydlu o fewn strwythur llywodraethu'r Bwrdd a'i fusnes craidd. Ffocws Grŵp Strategol Rhanbarthol VAWDASV hyd yma fu datblygu strategaeth ranbarthol, 'Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach', yn unol â gofynion deddfwriaeth, yn ogystal â datblygu strwythurau i weithredu a goruchwylio'r hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' ar draws cyrff sy'n bartneriaid. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ledled y rhanbarth.

(c) Y graddau yr ydym wedi gweithredu ein cynlluniau blynyddol strategol 2017-18

1 Gwella Deilliannau

Cael sicrwydd bod yna ymatebion effeithlon, effeithiol a chydlynol i'r anghenion y canfuwyd eu bod gan blant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, ar draws y 'continwwm o angen' sy'n arwain at ganlyniadau gwell.

Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:

- Rhoi Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd am Berfformiad ar waith er mwyn rhoi data a gwybodaeth well i'r Byrddau Gweithredol ynglŷn ag ymarfer diogelu.
- Gwella'r trefniadau cefnogi busnes er mwyn datblygu cynlluniau gwaith ar gyfer yr Is-grwpiau.
- Sefydlu trothwyon mwy cyson ar gyfer plant ac oedolion o ran ymatebion a gwasanaethau diogelu.
- Sefydlu cysylltiadau cryfach ag arweinwyr Diogelu mewn Addysg.

Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:

- Mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd am Berfformiad Rhanbarthol y Byrddau, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2017, yn cynnwys set ddata gynhwysfawr a rhaglen archwilio thematig, leol a rhanbarthol. Adroddir am y set ddata hon a'r rhaglen archwilio wrth y Byrddau Gweithredol gan y Grwpiau Gweithredu Lleol drwy adroddiadau wedi eu targedu a chynlluniau gweithredu.
- Mae trefniadau cefnogi busnes gweinyddol wedi cael eu cryfhau. Yn awr, mae yna systemau a phroses effeithlon ac effeithiol yn eu lle, yn cael eu goruchwylio gan Uned Fusnes y Bwrdd, sy'n cefnogi'r Byrddau Gweithredol, yr Is-grwpiau a'r holl ffrydiau gwaith cysylltiedig a chynlluniau gweithredu sydd wedi eu sefydlu. Mae atebolrwydd, strwythurau llywodraethu a threfniadau adrodd yn glir, ac yn gymorth i gyfathrebu uniongyrchol a chadarn rhwng y Byrddau Gweithredol, y Grwpiau Gweithredu Lleol a'r Is-grwpiau.
- Cafodd dogfen ranbarthol cymhwystra ar gyfer cymorth a throthwy, 'Y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn', ac offeryn yr ymarferwr ar gyfer plant a theuluoedd ei gwblhau a'i lansio'n ffurfiol fel rhan o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2017. Y Grwpiau Gweithredu Lleol sydd wedi arwain ar godi ymwybyddiaeth o'r ddogfen hon ymhlith ymarferwyr, gan sicrhau ei bod yn gymorth i weithwyr proffesiynol wella cysondeb ymatebion i'r angen a'r perygl sy'n cyflwyno'u hunain.
- Cynhaliwyd dau archwiliad thematig a chomisiynwyd ymchwil yn y flwyddyn ddiwethaf ynghylch hunanladdiadau tebygol a phlant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.
- Fe wnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddileu'r termau 'niwed sylweddol' ac 'oedolyn agored i niwed', ac ynghyd â diffiniad newydd 'oedolyn mewn perygl' mae hyn wedi cael effaith ddigyffelyb a sylweddol ar nifer a swm yr atgyfeiriadau diogelu oedolion a dderbyniwyd ar draws y

pedwar Awdurdod Lleol. Mae hyn, ynghyd â diffyg canllawiau statudol a gweithdrefnau amddiffyn mwy diweddar, wedi achosi dryswch ymhlith gweithwyr proffesiynol ynghylch trothwyon a'r ymatebion proffesiynol addas ar gyfer lefelau gwahanol o risg. Mae hyn yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n ymarfer gwael, yr hyn sy'n galw am ymchwiliad ffurfiol gyda'r Heddlu a'r hyn y gellir ei reoli'n ddiogel fel rhan o gynllun Gofal a Chymorth. Mae gwaith wedi bod yn mynd ymlaen ar ddatblygu dogfen Ganllaw ar Drothwyon Diogelu Oedolion a phroses i ymarferwyr wella eu dealltwriaeth a sicrhau ymarfer cyson.

- Mae'r Uned Fusnes wedi sefydlu cysylltiadau cadarnhaol ag Arweinwyr Rhanbarthol Diogelu mewn Addysg ar draws y pedair ardal Awdurdod lleol.

Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:

- Rydym yn deall ymarfer diogelu yn well ar draws y rhanbarth ac mae hyn yn ein cynorthwyo i adnabod y grwpiau o blant ac oedolion sydd fwyaf mewn perygl.
- Drwy'r archwiliadau rhanbarthol a lleol a'r ymchwil yr ydym wedi ei chomisiynu, rydym yn gwybod mwy am blant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref a'r rheiny a all fod mewn mwy o berygl o hunanladdiad. Mae hyn yn arwain ac yn safoni ymarfer rhanbarthol.
- Cynhyrchwyd canllawiau, polisïau a gweithdrefnau i gefnogi ac arwain ymarferwyr yn eu gwaith a chynorthwyo i gadw plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys **polisi ar gyfer gweithio gyda rhieni y canfuwyd bod ganddynt afiechyd meddwl** a chanllaw ar gyfer cynnal Ymholiadau Adran 47 ar gyfer plant sydd mewn perygl o niwed sylweddol.
- Rydym wedi cynhyrchu canllaw i hyrwyddo ymateb mwy cyson gan weithwyr proffesiynol i'r rheiny sydd angen gwasanaethau a'r rheiny sydd angen eu hamddiffyn. Bydd hwn yn gymorth i wella canlyniadau ar gyfer plant a'u teuluoedd drwy sicrhau eu bod yn derbyn **y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn.**
- Canlyniad hyn fu gwahaniaeth yn y niferoedd a'r mathau o achosion sy'n cael eu rheoli gan y Gwasanaethau Ataliol yn hytrach na chan wasanaethau statudol a dyletswyddau. Mae gwasanaethau Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin yn adrodd mai dim ond 15% o'r achosion a atgyfeiriwyd i'w gwasanaethau hwy a gafodd eu symud i wasanaethau statudol ffurfiol yn 2017/18. Camdriniaeth ddomestig a phroblemau tai yw'r rhesymau mwyaf cyffredin dros atgyfeiriadau i wasanaethau Dechrau'n Deg. Mae'r ddau beth hyn wedi gweld cynnydd yn y niferoedd a gyfeirir i wasanaethau ataliol yn 2017/18 o gymharu â 2016/17. Mae hyn yn dystiolaeth fod mwy o deuluoedd yn cael eu cefnogi drwy wasanaethau ataliol heb yr angen am gynlluniau a phecynnau gofal a chymorth ffurfiol.
- Cynhaliodd y Cyfarwyddwr Addysg arweiniol adolygiad o'r ddarpariaeth Diogelu mewn Addysg ar draws y rhanbarth, oedd yn cynnwys asesu gwasanaethau a threfniadau ar gyfer cyngor, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion, gweithio mewn partneriaeth, hyfforddiant a rheoli honiadau. Fe wnaeth yr adolygiad roi sicrwydd i'r Byrddau fod yna drefniadau cadarn yn eu lle ledled y rhanbarth.

Adborth gan Blant yng Nghymru:

"Rydym wrth ein bodd gyda'ch dogfen 'Y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn' ac rydym yn cyfeirio ati ar ein cyrsiau hyfforddi."

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:

- Gwneir rhagor o waith yn y flwyddyn sydd i ddod i ddatblygu'r fframwaith ymhellach er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn amlasiantaethol yn hytrach na bod yn or-ddibynnol ar wybodaeth gofal cymdeithasol.
- Cryfhau'r Uned Fusnes ymhellach gyda chefnogaeth ychwanegol o ran amser dadansoddwr data partneriaeth i wella'r gwaith o ddehongli'r wybodaeth a gynhyrchir ar gyfer y Bwrdd.
- Cafodd dogfen Ganllaw Trothwyon Diogelu Oedolion ei chadarnhau ym Mwrdd Gweithredol mis Gorffennaf ac mae hi ar gael erbyn hyn ar ein gwefan.
- Bydd gwaith yn parhau i gefnogi Arweinwyr Diogelu rhanbarthol gyda golwg ar wella cysondeb a chanlyniadau i blant ysgol ac i'r plant hynny sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref ar draws y rhanbarth.

2 Ymgysylltiad Gwell

Dangos bod llais plant ac oedolion mewn perygl yn ganolog i'n gwaith a bod barn plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn dylanwadu ar ymarfer ac yn siapio gwasanaethau.

Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:

- Cryfhau a chynorthwyo cyfathrebu gyda'r Bwrdd Diogelu Iau
- Ceisio ennyn diddordeb ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth yng ngwaith y Byrddau a gwella cyfathrebu â grwpiau agored i niwed
- Codi ymwybyddiaeth o'r Byrddau, eu swyddogaethau, eu proffil a'u gweithgareddau.

Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:

- Mae Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gefnogi Bwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol (CADW), sy'n cael ei hwyluso gan Wasanaeth Eiriol Annibynnol Tros Gynnal. Yn y flwyddyn ddiwethaf buddsoddwyd swm sylweddol o amser yn cryfhau'r berthynas rhwng y grŵp CADW rhanbarthol a Bwrdd CYSUR. Mae'r Uned Fusnes a Tros Gynnal wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i wella fformat y cyfarfodydd chwarterol er mwyn sicrhau bod trafodaethau a gweithdai yn cydredeg yn agosach â blaenoriaethau strategol y Bwrdd.
- Yn dilyn adborth gan y bobl ifanc mae'r Bwrdd wedi addasu'r ffordd y mae'n cyfathrebu â grŵp CADW drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (Facebook a **Twitter**) a **thudalen neilltuol i CADW** ar wefan y Bwrdd. Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn mynychu cyfarfodydd CADW yn rheolaidd ac mae cynrychiolwyr CADW wedi cael y cyfle i gymryd rhan yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol, lle y codwyd nifer o faterion o bwys i bobl ifanc, yn gysylltiedig â bwlio, a arweiniodd yn uniongyrchol at **dudalen 'Gwrthfwlio'** ar wefan y Bwrdd, a Diogelu mewn Addysg. Cafodd y materion hyn eu codi'n ddiweddarach ar Lefel Genedlaethol a chawsant eu datblygu, gan gynnwys sicrhau yr ymgynghorir â phobl ifanc o Ganolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch y cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Bwrdd Diogelu Iau CADW:

"Mae'r cysylltiadau gyda Wendy wedi bod yn wych ac wedi ein helpu i ddeall yn well"

- Mae ymarferwyr a staff rheng flaen wedi cymryd rhan mewn datblygu Polisïau a Gweithdrefnau gan ymgynghori drwy gyfrwng Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, digwyddiadau ymgynghori wedi eu targedu ac adborth rhithwir. Mae datblygu dogfen Ganllaw Trothwyon Diogelu Oedolion ranbarthol wedi golygu ymgynghori helaeth ag ymarferwyr ac, fel rhan o'r Strategaeth VAWDASV Ranbarthol, cynhaliwyd ymarferiadau ymgynghori helaeth gyda darparwyr trydydd sector arbenigol a goroeswyr camdriniaeth ddomestig.
- Mae'r Byrddau wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o'u gwaith drwy gyfrwng nifer o sianelau. Buddsoddwyd amser mewn gwella cynnwys gwefan y Bwrdd, sydd wedi ei gwneud yn bosibl peri i fwy o wybodaeth **am y Bwrdd** fod yn hygyrch i'r cyhoedd a chreu canolbwynt gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau diogelu **rhanbarthol** a **chenedlaethol**. Mae gwefan y Bwrdd hefyd yn cynnwys cysylltiadau â safleoedd perthnasol eraill a fforymau defnyddiol, gan gynnwys y **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**. Cynhaliwyd gweithgarwch hybu helaeth ar draws y rhanbarth fel rhan o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2017 gan ddefnyddio gwefan y Bwrdd a'r cyfryngau cymdeithasol. Manteisiwyd ar bob cyfle i gylchredeg cysylltiadau'r we i'r staff, yn hytrach na dogfennau annibynnol, lle roedd modd, gan fod hyn yn gymorth i godi ymwybyddiaeth o'r Bwrdd a'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan.

Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:

- Mae cyfathrebu gwell wedi cryfhau'r berthynas rhwng Grŵp Iau CADW a Bwrdd Gweithredol CYSUR.
- Mae gan y Bwrdd Gweithredol ddealltwriaeth well o ba faterion diogelu sy'n bwysig i blant a phobl ifanc. Mae hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar waith y Bwrdd gan fod eu mewnbwn ar addysg wedi ei fwydo drwodd i ERW (Ein Rhanbarth ar Waith), Llywodraeth Cymru a'r holl Gyfarwyddwyr Addysg yn y rhanbarth. Rhoddwyd adborth ar y camau a gymerwyd ar sail yr hyn yr oedd y bobl ifanc wedi ei ddweud yng nghyfarfod Rhanbarthol CADW ym mis Chwefror 2018 gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Kate Evan-Hughes, Cyfarwyddwr addysg Sir Benfro.
- Mae llais plant a phobl ifanc Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar yr agenda addysg genedlaethol a datblygiad y cwricwlwm ysgol. Mae hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth a galluogi gweithwyr addysg proffesiynol i ddeall yn well effaith bwlio ar les emosiynol plant a phobl ifanc a sut i wneud defnydd gwell o'r cyfryngau cymdeithasol i barhau i godi ymwybyddiaeth.
- Mae adborth ymarferwyr i ddatblygiad polisïau diogelu allweddol wedi bod o gymorth i wella ansawdd ac wedi sicrhau bod y theori yn y polisi yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.
- Mae hybu'r Byrddau a'u swyddogaethau ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn dal i fod o gymorth i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau dinasyddion mewn cymunedau a'u hannog i adrodd am bryderon ynghylch pobl a all fod mewn perygl.

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:

- Mae gwaith pellach yn mynd ymlaen i wella cysondeb mewn ymarfer ar draws y rhanbarth mewn diogelu oedolion drwy weithredu dogfen Ganllaw Trothwyon Diogelu Oedolion ranbarthol.
- Gweithio'n agos gyda phobl ifanc CADW i barhau i alinio blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iau a'r Bwrdd Hŷn.
- Gweithio tuag at gael aelodau'r Bwrdd Iau yn mynychu'n rheolaidd a bod yn bresenoldeb cyson mewn cyfarfodydd Bwrdd rhanbarthol a chydweithio gyda hwy ar eitemau ar yr agenda sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.
- Annog a chynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu a chynnal eu prosiectau diogelu eu hunain i gefnogi ein blaenoriaethau strategol cyffredin.
- Parhau i wella ymwybyddiaeth o'r Bwrdd ac ymchwilio'n llawn i gyfleoedd i hybu polisïau a digwyddiadau diogelu rhanbarthol newydd drwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Gweithio i ddatblygu systemau a phrosesau i leisio barn oedolion sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth ac sydd mewn perygl, a datblygu cyfleoedd iddynt gymryd rhan yng ngwaith y byrddau.

3 Mwy o wybodaeth

Cael sicrwydd ein bod yn gwybod pwy yw'r plant a'r oedolion sydd yn y perygl mwyaf a'n bod yn eu diogelu'n effeithiol.

Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:

Ceisio gwella dealltwriaeth ac ymarfer proffesiynol mewn perthynas â:

- Hunanladdiad a Hunan-niwed
- Iechyd Meddwl
- Gwrthgaethwasiaeth a Masnachu Pobl
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Addysg Ddewisol yn y Cartref, a
- Perfformiad Darparwyr

Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:

- Mae cryn waith wedi cael ei wneud mewn perthynas â phlant ac oedolion y canfuwyd eu bod mewn mwy o berygl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Nodwyd Hunanladdiad, Addysg Ddewisol yn y Cartref, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac ansawdd y gofal a roddir i bobl hŷn mewn cartrefi gofal fel meysydd o waith sy'n gofyn am sylw neilltuol.
- Mae deall y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad ymysg plant ac oedolion ifanc, yn ogystal â'r hyn a all fod o gymorth i atal hunanladdiad, wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Byrddau yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Sefydlwyd Fforwm Hunanladdiad a Hunan-niwed Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae wedi datblygu strategaeth atal ddrafft. Mae digwyddiadau i randdeiliaid yn cael eu cynnal i ymgynghori ar y strategaeth gyda golwg ar ei chyhoeddi a'i lansio yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu amcanion Siaradwch â Fi 2. Mae grwpiau is-ranbarthol a grwpiau cyflawni lleol yn datblygu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r strategaeth fydd yn cael ei monitro gan y fforwm ranbarthol. Mae hunanladdiad a hunan-niwed yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Gweithredol Diogelu, lle yr adroddir am gynnydd.
- Mae'r Cynllun Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) Rhanbarthol a ddatblygwyd yn

2016 a'r camau gweithredu a nodwyd ynddo yn awr wedi ei sefydlu yn rhan o ymarfer proffesiynol amlasiantaethol. Datblygwyd ymhellach fesurau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth broffesiynol o'r rheiny sy'n agored i niwed ac mewn perygl o CRhB. Cynhelir cyfarfodydd MACSE (CRhB Amlasiantaethol) yn rheolaidd ar draws y rhanbarth. Darperir data ar gyfer Cyfarfodydd Grwpiau Gweithredu Lleol a chaiff ei drafod ac yng nghyfarfodydd y Byrddau Gweithredol fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd, ac mae hyfforddiant ar gael i weithwyr proffesiynol ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol.

- O ganlyniad, mae Sir Benfro wedi adrodd canlyniadau gwell yn eu rheolaeth ar achosion lle mae CRhB yn nodwedd. Mae systemau a phrosesau fel offer SERAF a chyfarfodydd MACSE wedi gwella goruchwyliaeth y rheolwyr dros achosion risg uchel ac wedi ei gwneud yn bosibl olrhain yn well a monitro'r plant o'r tu allan i'r Sir sydd wedi eu gosod o fewn Sir Benfro.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r broses o Ddyrchafu Pryderon i gynnwys pob agwedd ar berfformiad darparwyr. Comisiynwyd archwiliad thematig rhanbarthol i adolygu effeithiolrwydd gweithdrefnau comisiynu a'r broses ddyrchafu, lle y canfyddir pryderon ynghylch ansawdd y gofal a ddarperir. Mae fframwaith sicrhau ansawdd o fewn ôl-troed Comisiynu Gorllewin Cymru wrthi'n cael ei ddatblygu, fydd yn ategu'r gwaith hwn.

Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:

- Datblygwyd canllawiau ymarfer rhanbarthol i ddiogelu plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae gwaith yn mynd ymlaen yr un pryd ynglŷn â rhannu gwybodaeth yn amserol rhwng asiantaethau i gefnogi'r broses hon.
- Mae Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddatblygu arweiniad ymarfer cenedlaethol i fod o fwy o gymorth i addysgwyr yn y cartref ac mae'r gwaith a gwblhawyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei ddefnyddio fel sail i ganllaw ymarfer cenedlaethol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Mae'r Bwrdd wedi gyrru ac wedi dylanwadu ar y consensws cenedlaethol ar ddiogelu o ran yr angen am gofrestr EHE orfodol. Mae'r Bwrdd yn parhau i ddadlau y dylai'r llywodraeth weithredu ar hyn.
- Mae swm sylweddol o waith wedi cael ei wneud ar atal hunanladdiad, gan gynnwys datblygu canllaw i ymarferwyr ar y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad.
- Datblygwyd protocol pob-oedran ar gyfer plant rhieni sydd ag anawsterau iechyd meddwl a'i ledaenu i ymarferwyr ar draws y rhanbarth.

Comisiynydd Plant Cymru mewn ymateb i gyhoeddiad LIC ar Addysgu yn y cartref (1/2/18):

"..dylai pob plentyn gael y cyfle i gael ei weld a dylai ei farn a'i brofiadau gael gwrandawiad."

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:

- Parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC) a Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad Canllaw Cenedlaethol i ddiogelu'n well y plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref a chydnabod yr un pryd bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yng Nghymru yn annigonol.
- Mae Dyrchafu Pryderon yn broses y cytunwyd arni'n genedlaethol ar gyfer monitro ac olrhain ansawdd y gofal a ddarperir i oedolion sy'n byw mewn cartrefi preswyl. gofal neu nyrsio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r broses o Ddyrchafu Pryderon o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru i gynnwys pob agwedd ar berfformiad darparwyr. Comisiynwyd archwiliad thematig rhanbarthol i adolygu effeithiolrwydd gweithdrefnau comisiynu a'r broses ddyrchafu, lle y canfyddir pryderon.

4 Dysgu Parhaus

Parhau i ddatblygu a gwella y ffordd yr ydym yn gweithio fel bod y deilliannau i blant ac oedolion sydd mewn perygl yn gwella.

Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:

- Dweud wrth bobl am Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r hyn yr ydym yn ei wneud.
- Ceisio adolygu a gwella ansawdd hyfforddiant diogelu rhanbarthol.
- Gwella ein proses o Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion.
- Rhannu dysgu

Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:

- Mae Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi cyflwyno hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i staff fel rhan o raglenni cynefino ac i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae gwefan y Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd, y gweithgareddau a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth fel rhan o'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol a'r sylw gan y cyfryngau lleol a chenedlaethol.
- Gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu strategaeth hyfforddi amlasiantaethol, pob-oedran, ranbarthol i gynorthwyo asiantaethau sy'n bartneriaid i gyflawni eu cyfrifoldebau ar y cyd fel aelodau o'r Bwrdd Diogelu, fel yr amlinellir yn rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, o ran hyfforddiant diogelu.
- Rydym wedi gweithredu protocolau rhanbarthol **APR** a **CPR** sy'n cefnogi arweiniad statudol yn Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrolau 2 a 3, mewn perthynas â chynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Mae'r protocolau hyn wedi ceisio gwella ansawdd a thryloywder y broses adolygu ymarfer a chefnogi dull mwy cyson o nodi achosion sy'n cwrdd â'r meini prawf i'w hystyried am adolygiad.
- Datblygwyd proses i rannu dysgu drwy gyfleu gwybodaeth rhwng y Byrddau Gweithredol, yr Is-grwpiau a Grwpiau Gweithredu Lleol i staff rheng flaen ac ymarferwyr.

Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:

- Mae hybu drwy gyfrwng hyfforddiant a defnyddio'r wefan wedi bod o gymorth i godi ymwybyddiaeth o'r Byrddau a'u proffil.
- Mae gweithio ar y strategaeth hyfforddi wedi golygu llawer o drafodaeth ymhlith asiantaethau sy'n bartneriaid. Bu hyn o gymorth i wella dealltwriaeth o'r hyn y mae'r holl sefydliadau yn ei wybod am fframweithiau hyfforddi ei gilydd a chryfhau'r berthynas rhwng asiantaethau.
- Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Rhanbarthol wedi codi o 4 yn 2016-17 i 9 yn 2017-18, sy'n gynnydd o 56%. O ganlyniad, mae mwy o Adolygiadau Ymarfer yn cael eu cynnal, fydd yn gymorth i nodi mwy o ddysgu ac yn y pen draw yn gwella ymarfer diogelu.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:

"Diolch i chi am ddod a rhoi mewnbwn. Roedd yn llawn gwybodaeth ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr."

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:

- Parhau gyda'r rhaglen o ddarparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ar draws yr holl ranbarth a defnyddio'r wefan i hybu holl weithgareddau'r Bwrdd Diogelu.
- Cwblhau'r Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol. Pan fydd yn gyflawn, bydd yn cynnwys fframwaith hyfforddi amlasiantaethol craidd, deilliannau dysgu amlasiantaethol a matrics hyfforddiant o'r hyfforddiant sydd ar gael o fewn y rhanbarth. Mae'r strategaeth yn ymgorffori gweledigaeth strategol 5-mlynedd hirdymor a chynllun gwaith. Mae'r Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol wedi cael ei chadarnhau yn awr ac ar gael ar wefan y Bwrdd.
- Adeiladu hyder ein hymarferwyr yn y broses Adolygu Ymarfer a'i swyddogaeth i wella ymarfer drwy ddysgu.
- Comisiynu hyfforddiant ar y trothwy ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion ar gyfer ein cydweithwyr amlasiantaethol yng Ngwasanaethau Oedolion.

5 Arweinyddiaeth Gref

Darparu arweinyddiaeth strategol ar draws y bartneriaeth mewn perthynas â diogelu.

Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:

- Cryfhau llywodraeth, adolygu cynnydd y Byrddau a mesur gwelliant.
- Gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y wybodaeth a ddarperir i'r Byrddau Gweithredol gan Grwpiau Gweithredu Lleol ac Is-grwpiau.
- Ceisio gweithio'n agosach gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phartneriaethau rhanbarthol eraill.

Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:

- Mae strwythur a rheolaeth **Grwpiau Gweithredu Lleol** wedi gwella drwy alinio agendâu plant, oedolion a thrawstoriadol, gyda dau Awdurdod Lleol pellach o fewn y rhanbarth yn symud tuag at gyfarfod cyfunol.
- Mae gan yr holl Is-grwpiau rhanbarthol gynlluniau gwaith. Datblygwyd adroddiadau a chynlluniau gweithredu ac adroddir am y rhain yn uniongyrchol wrth y Byrddau

Gweithredol ar sail egwyddor eithriad, sy'n cynnwys diweddariadau rheolaidd gan Grŵp Strategol VAWDASV.

- Mae cysylltiadau da a chyfathrebu wedi eu sefydlu gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC). Mae Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol yn cyfathrebu'n rheolaidd â chynrychiolwyr ac mae Cadeiryddion y Byrddau wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r BDAC, yn cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru.
- Mae sianelau cyfathrebu cychwynnol wedi cael eu sefydlu rhwng y Bwrdd Diogelu a Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru. Caiff rhagor o waith ei wneud yn y flwyddyn sydd i ddod i ddatblygu llwybrau cyfathrebu mwy ffurfiol.

Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:

- Mae agenda gyfunol a dull 'diogelu pobl' pob-oedran, sy'n gymorth i drafodaeth ar y cyd a chydweithio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, wedi gwella effeithlonrwydd a rheolaeth y cyfarfodydd.
- Mae hyn wedi cefnogi dull cydweithredol o weithio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer grwpiau agored i niwed sy'n defnyddio gwasanaethau plant ac oedolion yn rheolaidd. Er mai megis cychwyn y mae'r trafodaethau, gobeithir y bydd y model hwn yn arwain at well canlyniadau i blant ac oedolion sydd heb alluoedd ac a allant golli eu ryddid. Mae gwaith i ystyried plant rhwng 16 a 18 oed, a allai ddod o fewn deddfwriaeth DoLS (Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid), yn cael ei arwain ar hyn o bryd gan weithwyr proffesiynol ym maes diogelu oedolion gyda'r Grŵp DoLS Rhanbarthol..
- Rhoddodd Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Gweithredol gyfle i aelodau'r Bwrdd hunanasesu'r cynnydd a wnaed, mesur gwelliant a nodi pa feysydd sydd angen datblygiad pellach a chryfhau'r berthynas rhwng aelodau'r Bwrdd.
- Gall y Bwrdd Gweithredol weld y cynnydd a wnaed ar yr holl gynlluniau gwaith a chynlluniau gweithredu drwy system syml o raddio RAG (Coch/Ambr/Gwyrdd / Red/Amber/Green) gan GiauGLl/Is-grwpiau.
- Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl canolbwyntio ar feysydd eraill sydd angen sylw a dyrannu adnoddau lle bo angen.
- Mae'r BDAC wedi cefnogi Bwrdd CYSUR yn eu gwaith ar Addysg Ddewisol yn y Cartref ac wedi comisiynu **adolygiad cenedlaethol,** yn cael ei gynnal gan CASCADE, sydd wedi gwneud cyfres o argymhellion i LlC o ran y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar gyfer addysgwyr yn y cartref, yn ogystal â'r mesurau diogelu cadarnach sydd eu hangen ar gyfer rhai plant 'anweladwy' sydd o bosibl yn agored i niwed.

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:

- Parhau gyda'r rhaglen o alinio yr holl GiauGLl â ffocws pob-oedran, a chynnal peilot o agenda Bwrdd Gweithredol gyfunol gyda golwg ar ystyried un cyfarfod Gweithredol 'Diogelu pobl' i bawb yn y dyfodol.
- Parhau i wella ansawdd y wybodaeth a roddir i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn ei gwneud yn haws canfod y meysydd i ganolbwyntio arnynt.
- Parhau i edrych i mewn i gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda'r BDAC a phartneriaethau rhanbarthol eraill.

6 Tystiolaeth o Gydymffurfio

Sicrhau bod Byrddau diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gallu dangos eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau statudol yn effeithiol.

Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:

- Rhoi mesurau ar waith i wella goruchwyliaeth strategol y Byrddau o gynlluniau gwaith Is-grwpiau a nodi ffyrdd o fesur a monitro unrhyw risg i'r Byrddau
- Hybu cysondeb a chefnogi ymarfer proffesiynol da drwy ddatblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol

Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:

- Mae nifer o gynlluniau gweithredu rhanbarthol wedi cael eu llunio, ynghyd â mecanweithiau busnes i sicrhau bod cynnydd y cynlluniau hyn yn cael ei hunanasesu a'i fonitro gan grwpiau Gweithredu Lleol, ac yr adroddir amdanynt wrth y Byrddau Gweithredol.
- Mae nifer o grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn bodoli yn gweithio tuag at ddatblygu polisïau rhanbarthol gan gynnwys protocol rhannu gwybodaeth amlasiantaethol, protocol 'y tu allan i oriau', a rheoli ac ymateb i honiadau o gam-drin proffesiynol.

Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:

- Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau wedi datblygu nifer o bolisïau rhanbarthol i gynorthwyo ymarferwyr i ymarfer o fewn fframweithiau'r ddeddfwriaeth bresennol gan gynnwys Deddf Plant 1989, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Sefydlwyd Grŵp DoLS (Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid) Rhanbarthol i weithio ar y cyd i reoli'r cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith a'r atgyfeiriadau DoLS ers effaith dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer.
- Y canlyniad a nodwyd o'r gwaith hwn yw bod ymarferwyr a rheolwyr yn gallu adnabod a blaenoriaethu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod y rheiny sydd fwyaf angen cymorth a chefnogaeth yn cael gwasanaethau mewn ffordd amserol.
- Fel yr Awdurdod Lleol cynhaliol, mae systemau wedi cael eu datblygu o fewn systemau llywodraethu mewnol Cyngor Sir Penfro i ganfod ac ymateb i unrhyw risg a achosir drwy gynnal y Gofrestr Ddiogelu Ranbarthol drwy gyfrwng eu cofrestr risg hwy.

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:

- Parhau i fonitro ac adolygu cynlluniau gweithio rhanbarthol, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau i'r Byrddau Gweithredol i ganfod meysydd o risg.
- Cefnogi cysondeb rhanbarthol a chydweithredu amlasiantaethol drwy weithio ar y cyd ar brosiectau rhanbarthol.

(ch) Sut rydym wedi cydweithio gyda chyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y byrddau

Llywodraeth Cymru

Parhaodd Rheolwr Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i weithio'n agos gyda LlC yn y flwyddyn ddiwethaf drwy fynychu cyfarfodydd briffio rheolaidd gyda swyddogion y Llywodraeth i drafod gwaith y Bwrdd. Mae'r Byrddau wedi cefnogi datblygu Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol drwy gynnal digwyddiad ymgynghori amlasiantaethol rhanbarthol, oedd yn galluogi aelodau'r Bwrdd, rheolwyr ac ymarferwyr i roi eu barn ar gynnwys a strwythur y gweithdrefnau. Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol yw cynrychiolydd Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y Bwrdd Prosiect Cenedlaethol sy'n goruchwylio datblygu a gweithredu'r gweithdrefnau.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill ledled Cymru

Mae'r holl Reolwyr Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer da, trafod meysydd o ddatblygiad a nodi tueddiadau diogelu cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Mae Cydgysylltydd Busnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cydweithio gyda'i chymheiriaid ar draws Cymru i gynllunio'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, gan ddatblygu themâu rhanbarthol i ddosbarthu'r gwaith a rhannu arfer da.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sefydlu cysylltiadau a chyfathrebu gyda Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru. Mae cynlluniau yn eu lle i gynnal adolygiad ar y cyd o Gynlluniau Blynyddol y Bartneriaeth a'r Bwrdd Diogelu yn y flwyddyn i ddod er mwyn canfod unrhyw gyfleoedd posibl ar gyfer gwaith ar y cyd yn y dyfodol.

Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymgysylltu a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n adolygu trefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu hyfforddiant diogelu ar draws Cymru. Mynychodd Rheolwr y Bwrdd weithdy i gychwyn y broses o ddatblygu fframwaith hyfforddiant amlasiantaethol cenedlaethol. Bydd Rheolwr y Bwrdd a Chadeirydd yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol yn parhau i roi mewnbwn i'r broses hon yn y flwyddyn sydd i ddod.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Rydym wedi gweithio gydag AGC yn eu hadolygiad o ymarfer diogelu oedolion. Daeth cynrychiolwyr uwch i gyfarfod y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018 i drafod a rhoi adborth ar eu canfyddiadau mewn perthynas ag Ymarfer Diogelu Oedolion. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i ymdrin â rhai o'r materion a nodwyd, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad parhaus y ddogfen Ganllaw Trothwy Diogelu Oedolion ac offeryn yr ymarferwr. Cynhelir archwiliad thematig,

rhanbarthol mewn perthynas â galluedd meddyliol yn y flwyddyn i ddod i asesu sut mae galluedd meddyliol yn cael ei ystyried mewn gwaith diogelu.

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Mae Bwrdd CYSUR wedi gweithio gyda'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol o ran Prosiect Gwirionedd, sydd wedi ei hysbysebu ar wefan y Bwrdd ac mae gwybodaeth wedi ei lledaenu ar draws y rhanbarth. Mae Prosiect Gwirionedd yn galluogi unrhyw un sydd wedi dioddef yn rhywiol i rannu ei stori a'i wybodaeth mewn ffordd rydd a chyfrinachol i banel. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn gymorth i hysbysu canlyniad gwaith yr Ymchwiliad a dylanwadu ar unrhyw argymhellion a wneir.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweithio gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y rhanbarth i ystyried sut y gallai'r rhyngwyneb rhwng proses Adolygu Ymarfer a phroses Adolygu Dynladdiadau Domestig ddod i gydredeg yn well er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu rhannu'n ehangach. Datblygir protocol rhanbarthol i gefnogi gweithio ar y cyd, lle bo'n briodol, a strwythurau i rannu dysgu yn y flwyddyn sydd i ddod.

Barnardos Cymru – Prosiect Gwella

Mae'r Prosiect Gwella bellach yn ei flwyddyn olaf ac mae achosion peilot gyda phlant a theuluoedd yn dal i fynd ymlaen mewn pedwar awdurdod lleol ar draws Cymru. Mae'r plant hyn a'u teuluoedd yn derbyn cymorth gan ymarferwr Gwella am flwyddyn, gyda'r nod o ddeall effaith y trawma ar y plentyn er mwyn canolbwyntio cymorth yn well; cyfoethogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn; a sefydlu system wybodus ynghylch trawma o gwmpas y plentyn. Nod y prosiect yw cael tystiolaeth fod mwy o gymorth yn gynharach yn lleihau'r angen amdano yn ddiweddarach yn y glasoed, pan ddaw gwendidau i'r amlwg efallai drwy risg cynyddol o CRhB neu arddangos ymddygiad niweidiol yn rhywiol.

Mae yna bedwar o blant yn gweithio gyda Phrosiect Gwella ar hyn o bryd yn ardal Sir Gaerfyrddin. Mae'r plant hyn i gyd yn 'Derbyn Gofal', gyda thri ohonynt wedi eu gosod gyda gofalwyr maeth yr Awdurdod Lleol tra mae un yn aros ar Orchymyn Gofal ac wedi dychwelyd i fyw gyda'i mam fiolegol. Mae'r Ymyriad Gwella i ddod i ben ar gyfer tri o'r plant hyn ym mis Tachwedd 2018, a'r plentyn arall ar ddechrau mis Rhagfyr 2018. Hyd yma mae'r Ymyriad Gwella ac ymgysylltiad y plant a'u teuluoedd/gofalwyr wedi bod yn gadarnhaol, tra'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi perthnasoedd a sefydlogrwydd lleoliadau; gweithio tuag at gynlluniau adfer arfaethedig; cynnal sesiynau taith bywyd; a defnyddio egwyddorion Theraplay. Mae'r peilot yn cael ei werthuso gan Brifysgol Caerdydd ac mae'r broses hon yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

Fe wnaeth ymarferwr Gwella Barnardo's hefyd ddarparu sesiwn ymwybyddiaeth o CRhB ym Mhrifysgol Dewi Sant y Drindod yng Nghaerfyrddin ar y 14eg o Fai, oedd yn cael ei gario drosodd o Ddiwrnod CRhB Cenedlaethol ar y 19eg o Fawrth. Cafodd y sesiwn ei mynychu gan lawer o weithwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau a chafodd rhai o ganfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd ym mlwyddyn gyntaf y prosiect eu rhannu yn ystod y sesiwn.

Adborth gan un oedd yn bresennol:

"Roeddwn yn gweld y cwrs yn ddiddorol iawn ac rwyf wedi cael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i allu cynorthwyo plant sy'n profi trawma."

South East Wales Safeguarding Children Board
Working Together For Children
WBSAB
Safeguarding and keeping safe
Western Bay Safeguarding Adult Board
Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Safeguarding Board
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
CTSB
CWM TAF SAFEGUARDING BOARD
Western Bay Safeguarding Children Board
Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin
BWRDD
Diogelu Gogledd
cymru
north wales
Safeguarding
BOARD
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
CAVO
Ceredigion Association of Voluntary Organisations
Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding
Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
Regional Safeguarding Children Board
BDORhCaF
C&VRSAB
PAVO
Powys Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill
Llywodraeth Cymru
Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru
Y rhai yr ydym wedi cydweithio ã hwy a gweithredu ar y cyd i gyflawni ein hamcanion
Cymdeithasau Sefydliadau Gwirfoddol
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
Arolygiaeth Gofal Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Archwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Carmarthenshire Association of Voluntary Services
DYFED-POWYS DIOGEL
SAFER DYFED-POWYS
PAVS
truth project
Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales
Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales
IICSA
INDEPENDENT INQUIRY INTO CHILD SEXUAL ABUSE
Sir Gâr
Carmarthenshire
Heddlu Police
DYFED-POWYS
Powys

(d) Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys dan adran.137(1) ac a gydymffurfiwyd â'r rhain?

I'r pwrpas o alluogi neu gynorthwyo'r Byrddau i gyflawni eu swyddogaethau, mae Adran 137 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu i Fyrddau Diogelu ofyn i berson neu gorff cymwys roi gwybodaeth benodol. Gwnaeth Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru un cais ffurfiol dan Adran 137 (1) i ddarparwr gofal ryddhau gwybodaeth i gynorthwyo i ddatblygu Adolygiad Ymarfer Oedolion. Roedd y Panel Adolygu'n ystyried y wybodaeth yn hanfodol fel sail i unrhyw argymhellion a dysgu. Cydymffurfiwyd â'r cais yn nes ymlaen a rhyddhawyd y wybodaeth. Mae'r adolygiad hwn yn awr yn mynd yn ei flaen yn dda a disgwylir ei gyhoeddi yn y flwyddyn sydd i ddod.

(dd) Yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn

Diwrnod Datblygu y Bwrdd Gweithredol Cyfunol

Daeth aelodau gweithredol Byrddau CWMPAS a CYSUR at ei gilydd ym mis Chwefror 2018 i edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf a datblygu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod 2018-19. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda thrafodaeth agored a gonest ynghylch yr hyn a ddisgwyliem ni i gyd gan y naill a'r llall. Dangosai hyn y graddau sylweddol yr oedd y Byrddau wedi datblygu a gwneud cynnydd i fod yn bartneriaeth waith hyderus ac effeithiol.

Mewnbwn gan Fwrdd Diogelu lau CADW:

Nodwyd ei bod yn hollbwysig i'r Byrddau barhau i ddatblygu her ac ymgysylltiad effeithiol â'r holl randdeiliaid. Er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl yn ein rhanbarth, cytunwyd bod angen lefel uchel o ymddiriedaeth, i ni fedru defnyddio ein llais cyfunol i gefnogi, herio a galw'r holl asiantaethau i gyfrif. Cafodd pryderon diweddar ym Mhowys eu trafod yn agored gyda golwg ar yr hyn y gallai'r Byrddau ei wneud i gynorthwyo i atal y sefyllfa rhag codi eto yn y dyfodol.

Adborth gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol:

"Mae yna deimlad cadarnhaol ynghylch symud ymlaen"

Dylanwadu ar yr agenda genedlaethol er mwyn diogelu'n well y plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref

Ers yr amgylchiadau trist o gwmpas marwolaeth Dylan Seabridge yn 2011, mae Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi dadlau'n gryf o blaid cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru i ddiogelu'n well y plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae Bwrdd CYSUR wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i dynnu sylw at y diffygion yn y ddeddfwriaeth bresennol. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi comisiynu cyfadran ymchwil CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd i gynnal **adolygiad thematig cenedlaethol**. Mae protocol a chanllaw ymarfer cenedlaethol yn awr wrthi'n cael eu datblygu ac mae'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cydweithrediad â'r BDAC wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar hyn.

Croesewir y datganiad ffurfiol a wnaed gan Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **'Sicrhau'r hawl i addysg addas ar gyfer pob plentyn'**, ar y 30ain o Ionawr 2018 a'r cyhoeddiad i

gryfhau deddfwriaeth bresennol. Fodd bynnag, teimlwn fod y penderfyniad i beidio â chyflwyno cofrestr orfodol ar gyfer plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y cartref, ynghyd â fframwaith cyfreithiol cryfach, yn gyfle arwyddocaol a gollwyd i gynnig mesurau diogelu cadarnach ar gyfer nifer fechan o blant anweladwy a all fod mewn perygl o niwed sylweddol.

Mae'r Bwrdd o'r farn mai ychydig fydd y cynigion i gyflwyno cronfeydd data lleol yn ei wneud i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i ganfod yr angen i gynnal asesiadau ffurfiol ar gyfer Ymchwiliadau Gofal a Chymorth neu Amddiffyn Plant statudol.

Canfuwyd diffygion eglur o fewn y cyd-destun cyfreithiol hwn gan Gladys Rhodes-Whyte, yr awdur annibynnol, a gynhaliodd yr Adolygiad o Ymarfer Plant ar ran Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn marwolaeth Dylan Seabridge, ac mae'r angen am hyn yn cael ei gefnogi'n glir gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Mae yna, mewn gwirionedd, gonsensws ymhlith mwyafrif yr holl weithwyr diogelu proffesiynol fod hyn yn angenrheidiol. Bydd y Bwrdd yn parhau i gyflwyno'r achos hwn i Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddi CYSUR 4 2017 Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

Cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ei Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig cyntaf yn 2018, a gynhaliwyd gan ddau awdur annibynnol i'r amgylchiadau o gwmpas marwolaeth drist person ifanc oedd yn Derbyn Gofal. Mae casgliadau'r adolygiad wedi bod o gymorth i nodi nifer o feysydd lle mae angen gwelliannau o ran ymarfer proffesiynol amlasiantaethol mewn cynllunio gofal ar gyfer rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc sy'n agosáu at fod yn annibynnol. Datblygwyd cynlluniau lleol a rhanbarthol ar sail canfyddiadau'r adolygiad ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu.

Gwaith Atal Hunanladdiadau

Mae'r adolygiad a grybwyllwyd uchod ac achosion tebyg eraill yn y rhanbarth wedi dylanwadu ar waith y Byrddau o ran atal hunanladdiad. Yn 2017 comisiynwyd Prifysgol Caerdydd a sefydliad ymchwil CASCADE gan Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i gynnal ymchwil i hunanladdiadau tebygol plant a phobl ifanc yn y rhanbarth. Gwnaed y gwaith hwn gan y Dr Tom Slater, sy'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig gyda phrofiad mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Mae'n addysgu ar y cwrs gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn rhan o cyfadran ymchwil CASCADE. Mae wedi cynnal ymchwil helaeth yn ymwneud â hunanladdiadau.

Mewn cydweithrediad â'r Byrddau, cyhoeddodd Dr Slater 'adolygiad pen desg o hunanladdiadau tebygol ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru'. Ceisiai'r adolygiad edrych ar dystiolaeth ehangach y gellid ei defnyddio mewn strategaethau ac ymarfer atal lleol, a chynhaliodd adolygiad thematig o Adolygiadau Achosion Difrifol (SCRs), Adolygiadau Ymarfer Plant (CPRs), Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plant (PRUDiC), Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APRs) ac adolygiadau amlasiantaethol eraill.

Roedd y canfyddiadau yn tynnu sylw at ffactorau risg cynyddol i blant ac oedolion ifanc, sy'n gysylltiedig â hunanladdiad gan gynnwys:

- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

- Profedigaeth
- Y cyfryngau cymdeithasol a dylanwad grŵp cyfoedion
- Camddefnyddio Sylweddau, a
- Materion iechyd meddwl.

Ategwyd yr ymchwil gan adroddiad cryno ac arweiniad ar gyfer ymarfer i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu yn dod i gysylltiad â rhai a all fod yn agored i niwed neu mewn perygl uwch o hunanladdiad. Lansiwyd canfyddiadau'r ymchwil fel rhan o'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ynghyd â phedwar digwyddiad dysgu a lledaenu a gyflwynwyd drwy 2017/18 ar draws y rhanbarth.

Adborth ymarferwyr:

"Teimlai 77% o'r gwerthuswyr y byddai'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn elwa'n uniongyrchol o fod yn bresennol yn y digwyddiad lledaenu dysgu."

Fe wnaeth yr adolygiad hefyd nodi strategaethau pwysig i weithwyr proffesiynol i'w helpu i atal a lleihau niferoedd y plant a'r bobl ifanc sy'n difa eu bywydau eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu hyfforddiant a chymorth i ymarferwyr Gofal Cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion ifanc agored i niwed, yn ogystal ag asiantaethau anstatudol, gwirfoddol, a
- phwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael i blant ac oedolion ifanc agored i niwed, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch lle y gallant gael mynediad at gymorth a gwasanaethau, a phwysigrwydd hybu iechyd meddwl cadarnhaol.

Cydweithrediad Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol dros Wythnos Ddiogelu Genedlaethol

m mis Tachwedd 2017 cyd-drefnodd a chynhaliodd Uned Fusnes y Bwrdd, mewn cydweithrediad â'r Grwpiau Gweithredu Lleol, raglen ranbarthol o ddigwyddiadau i gefnogi'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol. Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad sy'n bartner, a chawsant gyfarfodydd rhithwir rheolaidd i gynllunio a chyd-drefnu rhaglen ranbarthol Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2017. Cydgysylltydd Busnes y Bwrdd oedd y cyswllt rhwng y grŵp hwn a Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau eraill yng Nghymru, oedd i gyd yn gweithio ar y cyd i ddarparu dulliau ac adnoddau cyson y gellid eu defnyddio ym mhob ardal. Roedd hyn yn cynnwys pecyn cyfathrebu gyda thaflenni ffeithiau ynghylch yr holl themâu diogelu, trydar / dyfyniadau wedi eu cyfieithu ymlaen llaw, datganiadau i'r wasg a lluniau i'w defnyddio gan dîm cyfathrebu pob sefydliad, lle bo'n briodol.



Dewisodd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar draws Cymru thema ddiogelu - thema Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2017 oedd Camdriniaeth a Chamfanteisio Ar-lein. Cynhyrchodd pob Bwrdd dudalen ffeithiau ar eu thema i'w rhannu gyda Byrddau eraill i'w defnyddio ar draws Cymru. Cafodd y taflenni ffeithiau hyn eu hybu'n fewnol ar fewnrwyd sefydliadau, ac yn allanol ar wefan y Bwrdd a fforymau y cyfryngau cymdeithasol.

Dan y thema ranbarthol hon o 'Gamdriniaeth a Chamfanteisio Ar-lein', cynhaliodd Sir Benfro, gyda chefnogaeth Heddlu Dyfed Powys, gynhadledd ddiogelu ranbarthol lwyddiannus iawn. Roedd yn edrych i mewn i ystod amrywiol o faterion o gwmpas camdriniaeth a chamfanteisio, gan

gynnwys cam-drin ariannol, Troseddu Seiber a sgamiau trothwy'r drws. Ceisiai'r gynhadledd godi ymwybyddiaeth o ddulliau o gam-drin a chamfanteisio ar oedolion a phlant. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gydag adborth ardderchog gan y rhai oedd yn bresennol, gan gynnwys rheolwyr, gweithwyr cymdeithasol, cynrychiolwyr iechyd a sefydliadau'r trydydd sector, athrawon a chynrychiolwyr addysg.

Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys:

- Hybu'r **fideo gwrthfwlio** a ddatblygwyd yn 2016 gan gynrychiolwyr ifanc Sêr Saff, Grŵp Diogelu Iau Ceredigion. Cynhaliodd Ceredigion hefyd ymgyrch ysgolion yn canolbwyntio ar fwlio seiber a secstio gyda disgyblion blwyddyn 7.
- Lansio dogfen ranbarthol cymhwystra ar gyfer cymorth a throthwy ar gyfer gwasanaethau plant, **'Y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn'**, gan CYSUR.
- Gwnaeth Grŵp Ieuenctid Dinbych-y-Pysgod waith i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhoi diwedd ar fwlio yn eu canolfan ieuenctid.
- Cynhaliodd Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro eu cynhadledd ddiogelu iau flynyddol, a daeth plant o bob ysgol yn y sir iddi.
- Cynhaliwyd sesiynau Cinio a Dysgu ar draws Powys ar Gaethwasiaeth Fodern.
- Sesiynau galw heibio mewn lleoliadau amrywiol gan ddefnyddio Gorsaf Heddlu symudol, yn cynnwys Parc Sglefrio Hwlffordd a Phrifysgol Aberystwyth.
- Digwyddiadau hyfforddi/rhannu gwybodaeth ym mhob ysbyty yn ardal Hywel Dda ar amrywiaeth o themâu diogelu.
- Trefnwyd cystadleuaeth poster Bwlio Seiber gan Wasanaethau Ieuenctid Ceredigion.
- Sesiynau mynediad agored mewn canolfannau i deuluoedd, canolfannau hamdden a chlybiau ieuenctid ar themâu diogelu.
- Y digwyddiad dosbarthu cyntaf ym Mhowys ar gyfer ymchwil CASCADE y Bwrdd ar hunanladdiadau tebygol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Fe wnaeth asiantaethau sy'n bartneriaid i'r Byrddau hefyd drefnu a hwyluso nifer amrywiol o weithgareddau ar draws y rhanbarth i gefnogi'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, gan gynnwys:

- Cynhaliodd Heddlu Dyfed Powys ymgyrch godi ymwybyddiaeth ar draws yr heddlu, o ran iechyd meddwl.
- Datblygodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gylchlythyr byd-eang a'i hybu ynghylch diogelwch ar-lein a chynaliasant waith ar y cyd gyda Hafan Cymru ynglŷn â chamdriniaeth ddomestig a diogelu plant.

Nodwyd fel arfer gorau yng Ngheredigion, gan fod diogelu yn 'fusnes i bawb' na ddylai'r cyfrifoldeb am gynllunio wythnos ddiogelu aros o fewn Timau Diogelu yn unig, ond y dylai gael ei rannu'n gorfforaethol o fewn sefydliadau ac yn allanol gydag asiantaethau arbenigol yn y trydydd sector. Argymhellir y model hwn i bob ardal ar gyfer Wythnos Ddiogelu Cymru yn 2018.

Rhai lluniau o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2017:

(e) I ba raddau mae asiantaethau wedi cyfrannu i effeithiolrwydd y byrddau?

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gwneud cyfraniad gweithredol iawn i waith byrddau CYSUR a CWMPAS a datblygiad parhaus ymarfer diogelu ar lefel ranbarthol a lleol. Mae cynrychiolwyr Hywel Dda yn bresennol yn rheolaidd ac yn cyfrannu i'r Byrddau Gweithredol, y Grŵp Gweithredu Lleol a'r Is-grwpiau. Pennaeth Diogelu yw is-gadeirydd yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion rhanbarthol ac mae wedi cefnogi proses Adolygu Ymarfer Plant drwy ymgymryd â rôl Cadeirydd y Panel mewn Adolygiad Ymarfer Plant sy'n parhau. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Nyrsio Corfforaethol Sicrwydd a Diogelu wedi'i hethol yn Is-gadeirydd Bwrdd Gweithredol CYSUR yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Hywel Dda yn cyflwyno data perfformiad diogelu lleol i bob cyfarfod o'r Grŵp Gweithredu Lleol sy'n galluogi ac yn cefnogi monitro ymarfer diogelu, a nodi themâu a thueddiadau.

Rhoddwyd trefniadau yn eu lle bellach i ymgorffori rhywfaint o'r data hwn yn y set ddata sicrwydd ansawdd ranbarthol yr adroddir amdani wrth y Byrddau Gweithredol yn y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am dderbyniadau i'r ysbyty cysylltiedig â hunan-niwed, cefnogi gwaith parhaus y Byrddau ar atal hunanladdiad. Mae gan Hywel Dda Grŵp Gorchwyl a Gorffen Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewnol sy'n cefnogi cynllun gweithredu camfanteisio'n rhywiol ar blant rhanbarthol Bwrdd CYSUR.

Mae Hywel Dda wedi cefnogi a hyrwyddo ethos cryf o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector yn y flwyddyn ddiwethaf. Maent wedi cymeradwyo prosiect Diogel ar y We, sy'n anelu at rwystro neu atal troseddwyr sydd newydd ddechrau rhag cael gafael ar ddelweddau anweddus. Codwyd ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r staff a chleifion drwy bosteri a thaflenni.

Esiampl o Ymarfer Diogelu

Cynhaliodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** archwiliad ar wlserau a difrod gwasgu ar ran Bwrdd CWMPAS. O ganlyniad, ni wneir atgyfeiriadau fel mater o drefn bellach at dimau diogelu oedolion ac mae system fwy cymesur wedi cael ei datblygu ar gyfer rheoli achosion niwed gwasgu, sy'n cynnwys cyflwyno panel craffu mewnol i adolygu achosion a rhannu data rhifiadol gyda GiauGLl. Canlyniad hyn fu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau amhriodol sy'n cael eu gwneud at wasanaethau drws ffrynt a thimau diogelu.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol i Fyrddau CYSUR a CWMPAS. Mae cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn bresennol yn rheolaidd yn y Byrddau Gweithredol, y Grŵp Gweithredu Lleol a holl gyfarfodydd yr is-grwpiau ac maent yn cefnogi datblygiad parhaus ymarfer diogelu ar lefel ranbarthol a lleol. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ymrwymo'n gryf i weithio mewn partneriaeth ac yn amlasiantaethol. Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu yw Is-gadeirydd y Grŵp Gweithredol Lleol ac mae'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr Gofal Cymdeithasol ym Mhowys i'w cynorthwyo i gyflawni agweddau ar eu cynllun gwella yn dilyn eu hadroddiad arolygu gwael.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cefnogi datblygiad ymarfer diogelu cenedlaethol ac maent yn bartneriaid gweithredol yn Rhwydwaith Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru ac yn cymryd rhan yn eu ffrydiau gwaith parhaus a'u Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, gan gynnwys y grŵp Dysgu oddi wrth Adolygiadau. Mae Arweinydd Gweithredol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer Diogelu yn cyd-gadeirio'r Grŵp Dechrau'n Dda sydd newydd gael ei sefydlu gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gynrychioli'n dda ar y grŵp a'r ffrydiau gwaith sydd newydd eu ffurfio ynddo. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol fel aelod o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Powys, ac ar hyn o bryd mae ganddo nyrs CAMHS sydd wedi'i secondio i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, yn hyrwyddo gwytnwch ac iechyd meddwl cadarnhaol ymhlith grwpiau agored i niwed o droseddwyr ifanc. Mae staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gweithio mewn partneriaeth agos â'u partneriaid amlasiantaethol ym mhob maes o'r agenda ddiogelu, gan gynnwys MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol), MAPPA (Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaethol), MACSE (Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol), PRUDiC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod), Rhianta Corfforaethol, Adolygiadau Ymarfer ac Archwiliadau ac yn y blaen. Mae staff uwch diogelu yn hybu cyfranogiad plant yn yr agenda ddiogelu ac yn parhau i ymgysylltu â Grŵp Diogelu Iau Powys, 'Bwyta Moron'.

Esiampl o Ymarfer Diogelu

Powys Teaching Health Board have undertaken significant work on developing systems for data collection measures which will support the Boards' oversight of safeguarding activity themes and trend at a local and region level. Plans are in place to share and present this at Local Operational Group meetings which will assist in oversight of safeguarding practice at local level in Powys.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar iawn i Fyrddau CYSUR a CWMPAS tra'n cadw ei sefyllfa genedlaethol o fod yr unig asiantaeth nad yw yn cyfrannu'n ariannol at y gwaith o redeg y Bwrdd. Mae'r Byrddau wedi elwa o gynrychiolaeth reolaidd, gyson ac aelodaeth ar lefel y Bwrdd Gweithredol ers nifer o flynyddoedd. Mae gweithwyr proffesiynol dynodedig y Tîm Diogelu Cenedlaethol yn aelodau o'r holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol (oedolion a phlant) ledled Cymru. Maent yn darparu cyngor arbenigol annibynnol ar ran GIG Cymru drwy fynychu'r Byrddau Gweithredol ac Is-Grwpiau Adolygu Ymarfer yn rheolaidd. Arweiniodd PHW adolygiad cenedlaethol i ddiweddaru'r broses PRUDiC ac mae wedi cyhoeddi canllawiau newydd. Bwriad hyn oedd ceisio cryfhau'r broses a'r rôl y mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ei chwarae drwy fonitro a goruchwylio'r broses PRUDiC. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru arbenigedd penodol mewn Adolygiadau Ymarfer Plant yn genedlaethol. Mae cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Y Byrddau Gweithredol yn rhoi cymorth sylweddol i barhau i ddatblygu'r broses o Adolygu Ymarfer Plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac i Uned Fusnes y Bwrdd. Maent yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ACEs (Profiadau Andwyol mewn Plentyndod) ar agenda Bwrdd CYSUR.

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)

Cafodd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ei chynrychioli'n gyson ym Myrddau Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ers mis Hydref 2016. Mae WAST yn cymryd rhan mewn Is-grwpiau a Grwpiau Gweithredu Lleol fel bo angen. Mae'n cefnogi'n llawn yr agenda ddiogelu strategol ehangach ledled y rhanbarth. Mae'n aelod o Grŵp Llywio Rhanbarthol y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) ac wedi cefnogi gwaith cyson VAWDASV ar draws y rhanbarth drwy lwybr Byw Heb Ofn i gynorthwyo dioddefwyr. Mae WAST hefyd yn gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau eu bod yn sefydliad sy'n ymwybodol o ACEs.

Esiampl o Ymarfer Diogelu

Mae **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru** wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o niwed a briwiau gwasgu mewn cleifion hŷn drwy ddatblygu rhaglen ddysgu hunangynhwysol. Caiff hon ei hybu yn y flwyddyn sydd i ddod yn nigwyddiadau cenedlaethol WAST, drwy'r Ganolfan Hyfforddi Ambiwlans Genedlaethol a chanolfan gyfathrebu SEIREN.

Heddlu Dyfed Powys

Mae Heddlu Dyfed Powys (DPP) wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol iawn i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn amlwg drwy bresenoldeb a chyfranogiad rheolaidd swyddog ar bob lefel o'r Bwrdd, gan gynnwys y Byrddau Gweithredol, y Grwpiau Gweithredu Lleol a'r holl Is-Grwpiau. Arweiniodd Heddlu Dyfed Powys nifer o brosiectau ar ran y Byrddau yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys datblygu Protocol Ymchwilio Adran 47 a briff technegol sy'n cefnogi ymarfer ac ymatebion rhanbarthol cyson i gynnal ymchwiliadau amddiffyn plant. Darparwyd cefnogaeth sylweddol i broses CYSUR o Adolygu Ymarfer Plant gyda chynrychiolydd dynodedig y Bwrdd Gweithredol yn cyflawni rôl Cadeirydd y Panel ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar (CYSUR 4 2017). Uwch-arolygydd Heddlu Dyfed Powys hefyd yw Is-gadeirydd presennol Bwrdd CWMPAS.

Ar lefel genedlaethol mae Heddlu Dyfed Powys yn rhan o brosiect plismona Cymru Gyfan i gyflwyno dull ymwybodol o ACEs i adnabod ac ymateb i wendid a diogelu. Mae hyn yn gysylltiedig â gwell dealltwriaeth o natur fregus yn gyffredinol, a'i heffeithiau ar blant ac oedolion mewn perygl. Prosiect dwy flynedd yw hwn ac mae'n golygu newid diwylliannol o fewn plismona i ymateb yn well i bobl sy'n agored i niwed.

Esiampl o Ymarfer Diogelu

Yn y flwyddyn ddiwethaf rhoddodd **Heddlu Dyfed Powys** systemau ar waith i wella eu hymatebion i ddigwyddiadau cam-drin domestig. Mae mewnbynnau hyfforddi penodol wedi cael eu darparu ar gyfer yr holl swyddogion rheng flaen ynghylch eu dealltwriaeth a'u hasesiad o risg. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â chynnydd mewn adnoddau arbenigol er mwyn i lefel uwch o arbenigedd fod ar gael ar gyfer ymdrin â digwyddiadau cam-drin domestig risg uchel a dioddefwyr. Canlyniad hyn yw ymateb gwell yn gyffredinol i ddigwyddiadau cam-drin domestig risg uchel, cynnydd yn y cyfraddau erlyn a mesurau diogelu gwell yn gyffredinol ar gyfer dioddefwyr.

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Dyfed Powys (YJS)

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol i'r Byrddau Diogelu drwy bresenoldeb rheolaidd a chyson yn y Byrddau Gweithredol, a'r Grwpiau Gweithredu Lleol sylfaenol a'r Is-grwpiau. Mae Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro yn cynrychioli buddiannau Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol yn y Byrddau Gweithredol a'r Is-grwpiau, yn lledaenu gwybodaeth i gydweithwyr ar draws ardal Dyfed Powys drwy gyfrwng Cyfarfodydd Cyfiawnder Ieuenctid Rhanbarthol. Mae'r holl Grwpiau Gweithredu Lleol yn ymgysylltu â'u Rheolwyr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lleol ac yn derbyn cynrychiolwyr, sy'n cyfrannu i'r agenda ddiogelu leol.

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC)

Cynrychiolir y ddau sefydliad ar y Byrddau Gweithredol, y Grwpiau Gweithredu Lleol a rhai Is-Grwpiau er mai'r un cynrychiolydd sydd fel arfer yn mynychu ar ran y ddau sefydliad. Gwnaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyfraniad llawn i Ddiwrnod Datblygiad y Bwrdd Gweithredol yn Chwefror 2018 a chyfrannodd i ddatblygiad cynllun strategol y Byrddau. Er bod presenoldeb a mewnbwn i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol wedi bod yn gyson, mae'r NPS a'r CRC wedi wynebu heriau sylweddol o safbwynt adnoddau yn y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi effeithio ar eu gallu a'u hargaeledd i gymryd rhan gyson yn yr holl Is-grwpiau rhanbarthol a'r Grwpiau Gweithredu Lleol, sydd ar y cyfan wedi bod yn afreolaidd ac anghyson. Mae hyn wedi amharu ar eu gallu i gymryd rhan lawn yng ngwaith a phrosiectau'r Byrddau, gan gynnwys datblygu'r ddogfen Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol a dogfen Ganllaw Trothwy Diogelu Oedolion.

Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Cyfarwyddwr Cymunedau Statudol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadeirio Bwrdd CYSUR ac wedi cyflawni'r rôl hon ers nifer o flynyddoedd, gan ddarparu arweiniad strategol cyson i'r Bwrdd Gweithredol, a'i Grwpiau Gweithredu Lleol a'i Is-Grwpiau. Mae Sir Gaerfyrddin wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar i'r Byrddau a'r Is-grwpiau sylfaenol gyda phresenoldeb cyson gan staff diogelu dynodedig. Mae'r gwasanaethau plant wedi datblygu ymhellach y model ymarfer arwyddion diogelwch, sy'n annog rhieni i chwarae mwy o ran ym mhroses y gynhadledd Amddiffyn Plant. Defnyddir hwn bellach yn holl gynadleddau achos amddiffyn plant Sir Gaerfyrddin. Mae Sir Gaerfyrddin yn cymryd yr arweiniad ar nifer o brosiectau ar gyfer y Byrddau, a fydd yn y pen draw yn helpu ymarferwyr rheng flaen i gyflawni eu dyletswyddau diogelu a'u cyfrifoldebau statudol. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol, a fydd, pan fydd wedi ei gwblhau, yn gymorth i rannu gwybodaeth yn amserol rhwng gweithwyr proffesiynol pan ganfyddir pryderon. Mae Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin wedi cefnogi'r broses Adolygu Ymarfer Plant rhanbarthol drwy ryddhau uwch reolwr i gyflawni rôl yr Adolygydd Annibynnol yn yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar (CYSUR 4 2017). Roedd hyn yn golygu ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau gan Wasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin.

Mae'r arweinydd strategol a gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn parhau i gadeirio a chefnogi'r Grŵp DoLS Rhanbarthol, sy'n cefnogi gwaith cydweithredol rhanbarthol o ran ymarfer DoLS. Y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yw Cadeirydd y Grŵp Hunanladdiad a Hunan-niwed Rhanbarthol, Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Grŵp Strategol Rhanbarthol VAWDASV, ac mae'n arwain yn rhanbarthol ar ddatblygiad parhaus y strategaeth VAWDASV ranbarthol a'r cynllun darparu gwasanaeth sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Esiampl o Ymarfer Diogelu

Mae arweinydd strategol a gweithredol **Cyngor Sir Caerfyrddin** ar gyfer diogelu oedolion yn arwain grŵp Gorchwyl a Gorffen amlasiantaethol oedolion rhanbarthol, sy'n gweithio ar sefydlu ymarfer diogelu oedolion cyson ar draws y rhanbarth. Arweiniodd y grŵp ddatblygiad dogfen Ganllaw Trothwy Diogelu Oedolion amlasiantaethol a gaiff ei chwblhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Rhagwelir y bydd hon yn cael effaith sylweddol ar ymarfer ac yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol a dderbynnir gan y gwasanaethau diogelu oedolion. Bydd hyn yn rhyddhau amser ymarferwyr ac yn gymorth i wella ansawdd ymyriadau proffesiynol i'r rheiny sydd mewn perygl mawr a lleihau'r amser a dreulir yn ddiangen ar atgyfeiriadau anaddas. Er enghraifft, gellir delio â phreswylydd mewn cartref gofal sydd wedi profi camgymeriad bychan, pan gafodd y feddyginiaeth anghywir ei rhoi'n anfwriadol gan weithiwr gofal, drwy gymorth lefel isel a gwell hyfforddiant. Ond gellir delio â phreswylydd oedrannus y mae rhywun yn camfanteisio arni i ddwyn symiau anferth o arian o'i chynilion, drwy ymchwiliad diogelu ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu, sy'n gwneud ymatebion amserol a chymesur yn bosibl.

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod rhanbarthol lle mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi eu lleoli ac mae'n hwyluso Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Cyfarwyddwr Statudol Presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw Cadeirydd Bwrdd CWMPAS. Mae Cyfarwyddwr Addysg Statudol Sir Benfro yn cynrychioli'r ardaloedd eraill yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru fel yr arweinydd strategol rhanbarthol ar gyfer Addysg. Mae Sir Benfro yn parhau i elwa o Dîm Diogelu Integredig sy'n cyfuno materion diogelu plant ac oedolion yn un gwasanaeth unedig. Mae'r peilot a gyflwynwyd y llynedd o gynnal Grŵp Gweithredu Lleol plant ac oedolion cyfunol wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae'n cael ei weithredu bellach fel model parhaol. Mae'r dull blaengar hwn gan Sir Benfro yn ategu'n llawn ysbryd ac ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r dull pob-oedran o ddiogelu pobl. Mae'r model hwn yn awr yn y broses o gael ei efelychu ar draws y rhanbarth gyda Grwpiau Gweithredu Lleol eraill yn dilyn eu hesiampl.

Mae Rheolwr Hyfforddiant Corfforaethol Sir Benfro yn cadeirio'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol ac wedi arwain datblygiad y Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol. Defnyddiwyd model Sir Benfro ar gyfer ymgymryd â MAPFs fel sail i ddatblygu Model Ymarfer rhanbarthol. Rhagwelir y bydd y ddau hyn yn ychwanegu gwerth sylweddol at ddarparu ymarfer diogelu rhanbarthol yng nghyd-destun cefnogi darparu hyfforddiant diogelu amlasiantaethol a darparu fframwaith sy'n annog ac yn cefnogi dysgu myfyriol amlasiantaethol.

Esiampl o Ymarfer diogelu

Mewn cydweithrediad â **Heddlu Dyfed Powys**, mae Adran Addysg Sir Benfro wedi treialu 'Gweithrediad Cwmpasu' yn yr ardal. Lansiwyd hwn yn wreiddiol i fynd i'r afael â diffyg rhannu gwybodaeth yn gynnar gydag ysgolion. Diben Gweithrediad Cwmpasu yw diogelu a chynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi gweld a/neu wedi bod yn bresennol ar adeg achos o gam-drin domestig drwy sicrhau bod ysgolion yn cael eu hysbysu'n ddi-oed y bore canlynol os oes digwyddiad domestig wedi digwydd y noson cynt. Er mai megis cychwyn y mae'r prosiect peilot hwn, mae arwyddion cynnar yn dangos canlyniadau da a gwell deilliannau i blant yn yr ardal. Dywed adborth gan athrawon eu bod yn teimlo'n fwy parod i gynorthwyo plant yn yr ysgol sydd efallai wedi gweld trais domestig a'i fod yn gymorth i sicrhau ymateb cymesur i unrhyw effaith y gall hyn ei chael ar ymddygiad y plentyn yn yr ysgol. Caiff y prosiect peilot hwn ei werthuso yn ystod y flwyddyn i ddod, gyda golwg ar ei ledaenu ar draws y rhanbarth

Cyngor Sir Powys

Mae Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Powys wedi profi heriau eleni yn dilyn eu harolygiad gan Arolygiad Gofal Cymru (AGC) yn 2017, a dynnodd sylw at bryderon a diffygion sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau i blant sydd mewn perygl ac sydd angen gofal a chymorth. Mae'r heriau hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar allu Powys i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyson yng ngwaith y Byrddau. Arweiniodd trosiant uchel a chyflym yn y staff ar lefel uwch at ymgysylltu gwan a pheri mai yn anghyson ac yn ysbeidiol y mae rheolwyr strategol uwch wedi bod yn bresennol yn y Byrddau Gweithredol. Gwnaed yr anawsterau hyn yn waeth gan system TG newydd (WCCIS), a roddwyd ar waith ar yr adeg dyngedfennol hon, sydd wedi atal Powys rhag darparu data, fel rhan o'r Fframwaith Adrodd a Sicrhau Ansawdd, i'r Byrddau am gyfnod o 12 mis. Mae hyn wedi rhwystro gallu'r Byrddau Diogelu i oruchwylio a deall gweithgarwch diogelu o fewn ardal Powys.

Ar lefel weithredol, bu presenoldeb ac ymgysylltiad Gwasanaethau Plant â'r Is-grwpiau rhanbarthol yr un mor anghyson, gan beryglu ymhellach unrhyw gyfranogiad ystyrlon yn nifer o brosiectau parhaus Bwrdd CYSUR. Mae hyn yn cynnwys gwaith mewn perthynas â datblygu Strategaeth Hyfforddiant Ranbarthol a datblygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau rhanbarthol. Mae hyn, ynghyd ag amharodrwydd cychwynnol Powys i fod yn rhan o Fwrdd Strategol VAWDASV Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru a negeseuon anghyson dilynol a roddwyd ynghylch ei fwriadau, wedi arwain partneriaid y Bwrdd Diogelu i'r casgliad mai partner anfodlon yw Cyngor Sir Powys yng nghydweithrediad y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.

Yn dilyn nifer o drafodaethau ar lefel gorfforaethol uwch, a phenodi Cyfarwyddwr Statudol parhaol newydd yn ddiweddar, mae'r Bwrdd yn gobeithio y bydd y sefyllfa a lefel yr ymgysylltiad â'r Byrddau Diogelu yn gwella. Mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol ac mae nifer o fesurau wedi'u cymryd i wella'r sefyllfa. Mae dogfen ranbarthol 'Y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn', cymhwystra ar gyfer cymorth a throthwy, wrthi'n cael ei chyflwyno ledled Powys drwy gyfres o weithdai staff. Mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd lleol wedi ei sefydlu ac mae wrthi'n cael ei weithredu. Mae canlyniad CYSUR 4 2017, yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a'i argymhellion i'w weld yn amlwg yng Nghynllun Gwella Gwasanaethau Plant.

Yn wahanol i Wasanaethau Plant, mae Gwasanaethau Oedolion Powys wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'i waith. Er gwaethaf rhai heriau o ran darparu data ar gyfer y Bwrdd, bu presenoldeb ac ymgysylltiad â Bwrdd Gweithredol CWMPAS a'i Is-grwpiau yn rheolaidd ac yn gyson, gyda lefel uchel o gyfranogiad a mewnbwn gan yr Arweinydd Diogelu Oedolion Uwch sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad y ddogfen Ganllaw Trothwy Diogelu Oedolion, ynghyd ag Is-grwpiau a ffrydiau gwaith eraill y Bwrdd.

Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cyfrannu'n llawn ac yn effeithiol i'r ddau Fwrdd Diogelu Rhanbarthol ar bob lefel. Mae Uwch swyddogion wedi mynychu ac wedi cymryd rhan yn holl gyfarfodydd y Byrddau Gweithredol ac mae cynrychiolaeth gyson briodol ar yr holl Is-Grwpiau Rhanbarthol a nodwyd. Mae Ceredigion wedi arwain ar ddatblygu nifer o brosiectau ar gyfer y Byrddau yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys datblygu polisi rhanbarthol ar gyfer cefnogi plant rhieni â salwch meddwl penodol. Maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol i Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd y Byrddau gan ddarparu data'n amserol a rhaglen archwilio leol, sydd wedi canolbwyntio ar adolygu a gwella effeithiolrwydd atgyfeiriadau sgrinio drws ffrynt, yn ogystal â gwella ymatebion i atgyfeiriadau i'r timau diogelu oedolion.

Mae cymorth wedi ei roi i'r broses o Adolygu Ymarfer Rhanbarthol gyda'r Uwch Reolwr Diogelu Oedolion yn cyflawni swyddogaeth Cadeirydd y Panel mewn Adolygiad Ymarfer Oedolion sy'n parhau, a Phennaeth y Gwasanaethau Plant yn cadeirio panel Adolygiad Ymarfer Plant sy'n parhau. Mae Ceredigion hefyd wedi gwneud cyfraniad llawn i waith sy'n mynd ymlaen a datblygiad y ddogfen Ganllaw Trothwy Diogelu Oedolion ranbarthol.

Esiampl o Ymarfer Diogelu

Fe wnaeth **Cyngor Sir Ceredigion** drefnu a hwyluso rhaglen gorfforaethol nodedig o ddigwyddiadau ar gyfer yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, a gafodd ei lledaenu ar draws yr Awdurdod Lleol i gyd yn hytrach na chael ei chyfyngu i wasanaethau a thimau Gofal Cymdeithasol yn unig. Cyfranogodd Adrannau Hamdden ac Addysg a sefydliadau'r trydydd sector yn nigwyddiadau'r wythnos. Drwy hyn cafwyd rhaglen eang o godi ymwybyddiaeth ar draws y sir i gyd.

Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol

Mae gan yr holl bartneriaid addysg rhanbarthol fframwaith cyson ar gyfer sicrhau ansawdd diogelu mewn ysgolion, proses hunanarfarnu flynyddol ac archwiliad allanol bob tair blynedd. Mae Addysg yn cael ei chynrychioli ar yr holl Grwpiau Gweithredu Lleol ac Is-grwpiau'r Byrddau.

Rhennir gyda'r Penaethiaid a'r Llywodraethwyr unrhyw themâu sy'n codi o archwiliadau iechyd diogelu, megis diogelwch safle, hyfforddiant, aliniad polisïau a chysondeb ymarfer.
Mae gan yr holl bartneriaid addysg rhanbarthol bryderon a heriau oherwydd y cynnydd yn y disgyblion sy'n cael eu tynnu allan i dderbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE). Ceir tystiolaeth fod cymhlethdod cynyddol ym mhroffil disgyblion sy'n dod yn EHE. Mae partneriaid rhanbarthol CYSUR wedi datblygu a chytuno ar Brotocol EHE. Bydd datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth ategol yn cryfhau'r protocol hwn.

Mae Adran Addysg Sir Benfro wedi arwain ar fenter diogelu ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys o'r enw Gweithrediad Cwmpasu. Offeryn ymyrryd yn gynnar yw hwn sydd wedi'i fwriadu i roi rhybudd cynnar i ysgolion am ddigwyddiad domestig a all fod wedi digwydd yng nghartref y teulu ac a allai effeithio ar y disgybl yn yr ysgol drannoeth.

Esiamplau o Ymarfer Diogelu

Sir Benfro a Cheredigion oedd yr ail ardaloedd yng Nghymru i gyflwyno datblygiad Mynegai Cydraddoldeb Stonewall.
Mae **Powys** wedi gweithredu rhaglen gwrth-fwlio kiVa yn ei hysgolion.
Mae **Sir Gaerfyrddin** wedi datblygu hyfforddiant cyfreithiol pwrpasol ar gyfer Prifathrawon

Cynrychiolydd Comisiynu Rhanbarthol

Mae Partneriaeth Gomisiynu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Bwrdd Gweithredol ac yn cysylltu â Phartneriaeth Gomisiynu Powys ar gyfer cydweithredu rhanbarthol cyfan. Un enghraifft o hyn yw Strategaeth VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru, lle y mabwysiadwyd dull rhanbarth cyfan er mwyn sicrhau y gwneir arbedion effeithlonrwydd wrth gomisiynu gwasanaethau i wella cysondeb a chanlyniadau i oroeswyr cam-drin domestig ledled Canolbarth & Gorllewin Cymru.

Esiamplau o Ymarfer Diogelu

O ganlyniad i anawsterau cael gafael ar wybodaeth gan ddarparwr i gefnogi'r gwaith o gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion, mae **Comisiynwyr Rhanbarthol** wedi gweithio ar y cyd i sicrhau bod pob contract newydd ar draws y rhanbarth yn cynnwys cymal yn disgwyl cydweithrediad darparwyr yn unrhyw adolygiadau diogelu yn y rhanbarth. Mae hyn yn dangos bod y Bwrdd yn gweithio i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn deall bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb.

(f) Asesiad o'r modd y mae'r bwrdd yn defnyddio'i adnoddau



Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn defnyddio'r fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau sy'n bartneriaid statudol. Mae'r graffiau a'r siartiau isod yn dangos sut y mae'r Bwrdd wedi defnyddio'i adnoddau ariannol o fewn cyd-destun incwm, gwariant a chyfraniadau partneriaid yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Cydnabyddir nad yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi eu cyfyngu i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau sy'n bartneriaid statudol. Mae Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion Is Grwpiau ac aelodau yn rhoi swm sylweddol o amser i gefnogi'r Bwrdd a'i waith. Mae hyn yn aml yn ychwanegol at eu rolau proffesiynol a'u



cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Mae natur newidiol ac amrywiol gwaith y Bwrdd yn ei gwneud yn anodd adrodd am hyn o fewn cyd-destun adnoddau y gellir eu pwyso a'u mesur ac nid yw bob amser yn weladwy i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Nid yw prosesu, rheoli a chyhoeddi Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, datblygu protocolau a pholisïau rhanbarthol, yn ogystal â phrosiectau sydd angen lefelau uchel o fewnbwn, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol yn ddim ond rhai enghreifftiau o waith Bwrdd Diogelu.

Mae holl bartneriaid statudol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyfrannu'n ariannol i redeg y byrddau, ac eithrio Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyfraniad hwn yn seiliedig ar ardaloedd poblogaeth o fewn y rhanbarth ar draws y sefydliadau amrywiol. Cyfanswm yr incwm i'r Bwrdd Diogelu oedd £134,642, sef yr isaf ar draws Cymru.

Gwariant 2017-18



Yn 2017-18, aeth y rhan fwyaf o wariant y Byrddau ar gostau rhedeg cyffredinol, gan gynnwys staffio'r Uned Fusnes (£92,083), gweinyddol / TG (£10,775) a teithio/lleoliadau ar draws ôl troed enfawr y rhanbarth (£3,795).

Fodd bynnag, gwariwyd swm mawr eleni (£26,200) ar gomisiynu gwasanaethau a/neu hyfforddiant, oedd yn cynnwys ymchwil CASCADE i hunanladdiadau tebygol, ymgynghori â Phobl yn Gyntaf Sir Benfro ar yr adroddiad blynyddol, hwyluso Bwrdd Iau CADW a gwasanaeth eiriol rhanbarthol ar gyfer pobl ifanc Tros Gynnal a hyfforddiant pwrpasol ar weithio gyda theuluoedd anodd, gochelgar a heriol.

(ff) Themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r byrddau diogelu wedi arfer eu swyddogaethau

Sicrhau her effeithiol ac atebolrwydd proffesiynol wrth ddarparu ymarfer diogelu



Mae datblygu a gweithredu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd y Byrddau, sy'n cynnwys set gynhwysfawr o ddata ochr yn ochr ag amserlen archwilio leol a thematig ranbarthol, wedi galluogi'r Byrddau i ddechrau deall ymarfer diogelu proffesiynol yn well yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Nodwy themâu a thueddiadau yng nghyd-destun llwybrau atgyfeirio ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, ymatebion drws ffrynt i defnyddwyr gwasanaeth sydd angen eu hamddiffyn, a'r defnydd o drothwyon ar draws gwasanaethau oedolion a phlant fel meysydd lle y mae angen dadansoddiad pellach neu welliant ar draws y rhanbarth. Bydd datblygiad parhaus y fframwaith hwn a darparu data perfformiad o ansawdd da yn cynorthwyo'r Byrddau yn eu hymrwymiad i herio'n effeithiol a dal asiantaethau i gyfrif pan fydd ymarfer diogelu a'r gwasanaeth a ddarperir yn disgyn yn is na'r safonau disgwyliedig.

Adolygiadau Ymarfer

Mae Protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol amlasiantaethol wrthi'n cael ei ddatblygu, mewn ymateb i argymhelliad yn yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig (CYSUR 4 2017) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fydd yn cefnogi'r angen i ddyrchafu pryderon pan fydd ymarfer diogelu yn wael neu os bydd anghytundeb proffesiynol ynghylch cynlluniau.

Mae tri o Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno wedi cychwyn yn 2017. Caiff unrhyw themâu cyffredin



a ddaw allan o'r adolygiadau hyn eu hystyried a chymerir y camau priodol pan fyddant wedi eu cwblhau.

Mae un Adolygiad Ymarfer Oedolion yn parhau i fynd rhagddo; drwy ddysgu nodwyd yr angen i gryfhau'r cysylltiadau comisiynu â darparwyr gofal. O ganlyniad, gwnaed newidiadau i gontractau ar draws y rhanbarth, gan gryfhau cymalau a geiriad er mwyn gorfodi darparwyr gofal i gydweithredu ag adolygiadau diogelu pan ofynnir iddynt. Bydd y gwaith parhaus i ddatblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd o fewn ôl troed Comisiynu Gorllewin Cymru yn ychwanegu gwerth pellach at y gwaith hwn.

Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol
Mae'r gwaith a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu fframwaith rhanbarthol Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) i gefnogi a helpu dysgu yn gam arwyddocaol ymlaen i'r Byrddau. Caiff hyn ei gryfhau yn y flwyddyn sydd i ddod pan gaiff ei roi ar waith, ochr yn ochr â chynlluniau i ddatblygu fforwm rhanbarthol i ystyried ac adolygu achosion MAPF.

Mae Grwpiau Gweithredu Lleol ar draws y rhanbarth wedi bod yn rhagweithiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi ymgymryd â'r MAPF ar achosion a nodwyd fel rhan o'u gwaith lleol. Mewn rhai achosion cafodd y rhain eu cyfeirio i'w hystyried ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant, ond ni fodlonwyd y meini prawf ar gyfer adolygiad llawn.

Nodwyd yr angen am welliannau mewn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ymysg gweithwyr proffesiynol fel thema gyffredin mewn llawer o achosion. Bydd y gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol yn cefnogi hyn. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd wrthi'n datblygu polisi ar gyfer plant a babanod sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gyda mân anafiadau mewn ymateb uniongyrchol i'r dysgu a nodwyd mewn MAPF.

Arwyddion Diogelwch (SoS)
Mae pob un o'r pedwar awdurdod lleol ar draws y rhanbarth naill ai wedi gweithredu'r arwyddion diogelwch neu yn y broses o gyflwyno'r model ymarfer hwn i'r timau gwaith cymdeithasol i raddau amrywiol. Mae hyn yn fwy sefydledig ac wedi gwreiddio yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, a fu'n defnyddio'r model ers peth amser. Mae Ceredigion yn y broses o hyfforddi staff gyda'r bwriad o'i gyflwyno ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Mae Powys wedi nodi eu bwriad i gyflwyno model Arwyddion Diogelwch yn y dyfodol. Mae Arwyddion Diogelwch yn ddull mwy cynhwysol o ddiogelu, mwy person-ganolog ac yn canolbwyntio ar atebion. Mae'n ceisio gwella ac annog mwy o gyfranogiad gan ddefnyddiwr y gwasanaeth. Mae egwyddorion craidd y model yn ategu ysbryd ac ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ceisio rhoi cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth wrth galon ymyrraeth proffesiynol gyda phlant, eu teuluoedd ac oedolion sydd mewn perygl.

Achos sy'n enghraifft o'r canlyniadau cadarnhaol y mae'r model Arwyddion Diogelwch hwn o ymarfer wedi eu sicrhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

- **Amgylchiadau:**

Bu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â chwpl nad oeddent yn gallu gofalu yn ddiogel am eu plentyn cyntaf. Ar ôl iddynt fethu ag ymgysylltu â gwasanaethau, bu'r plentyn yn destun gwrandawiad dadleuol, ac ar ôl hynny cafodd ei fabwysiadu.

Daeth y pâr yn feichiog gyda'u hail blentyn, a gafodd ddiagnosis yn y groth o broblemau iechyd difrifol. Parhaodd y broblem o ddiffyg ymgysylltu a chollwyd apwyntiadau iechyd ac apwyntiadau cynenedigol. Roedd angen cymhelliad cynnar i gynnal llawdriniaeth ar y babi. Roedd ymweliadau gan y fydwraig a'r gweithiwr cymdeithasol wedi methu â datblygu cynllun cyn-geni. Trodd y cwpl y gweithwyr proffesiynol i ffwrdd. Yn anffodus, bu

farw'r babi. Mae'r cwpwl yn cynllunio i gael babi ac eisiau cadw'r babi.

- **Ymyriad:**

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda'r pâr drwy'r model Arwyddion Diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo i fod yn rhieni diogel neu i dderbyn nad yw hyn yn bosibl.

- **Canlyniad cadarnhaol:**

Gan ddefnyddio Arwyddion Diogelwch i sefydlu dealltwriaeth, mae gweithwyr cymdeithasol / gweithwyr proffesiynol wedi llwyddo i annog y pâr i ymgysylltu â gwasanaethau

- **Eiliad Eureka:**

Mae'r pâr yn tynnu sylw at y fantais ymarferol o eistedd i lawr gyda gweithwyr proffesiynol i nodi eu cryfderau, eu hanawsterau, a rhywfaint o ddealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Maent yn gwerthfawrogi'r broses fapio weledol a llwybr y newid disgwyliedig.

Mae'r pâr am y tro cyntaf wedi dweud eu bod wedi cael y cyfle i adnabod eu hanawsterau eu hunain gyda disgwyliadau gweithwyr proffesiynol ac i gyfrannu at ddod o hyd i atebion.

- **Enghreifftiau o beth sydd wedi newid a'r canlyniadau a gyflawnwyd:**

Byddant yn ffonio i mewn yn gofyn am gyngor a gwybodaeth, yn ogystal ag i roi diweddariadau ar gynnydd a heriau. maent yn dychwelyd galwadau ffôn a gollwyd. Maent yn caniatáu ymweliadau i'w cartref.

Maent yn ymroi i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill mewn gwaith uniongyrchol ac maent bellach yn cydnabod bod arnynt angen cymorth cyn geni ac ar gyfer rhianta yn y dyfodol. Er mai 'gwaith ar y gweill' yw hwn, mae'r hyn a gyflawnwyd wedi'i hwyluso drwy addasu'r dull Arwyddion Diogelwch i weithio gyda'r oedolion hyn sy'n agored i niwed. Yn yr achos hwn, mae'r Arwyddion Diogelwch wedi hyrwyddo ymddiriedaeth a symleiddio'r broses ar gyfer pâr sydd ill dau ag anableddau dysgu i ryw raddau. Ni fydd y babi yn cael ei dynnu o ofal y rhieni adeg geni a chânt eu cynorthwyo i fyw gartref gyda chynllun amddiffyn.

(g) Pryd a sut mae plant ac oedolion wedi cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y byrddau

Bu aelodau ifanc y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau, CADW, yn bresennol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf 2017. Cawsant y cyfle i eistedd i lawr gydag aelodau'r Bwrdd Gweithredol i drafod materion oedd yn bwysig iddynt. Dywedai'r bobl ifanc eu bod yn cael trafferth gydag ymarfer gwahanol mewn gwahanol ardaloedd – yn eu barn hwy mae rhai ardaloedd gyda'r gorau a rhai ddim mor dda. Y thema gyffredinol oedd sut i helpu pobl ifanc i ddod yn wydn.

Adborth yn dilyn presenoldeb CADW yn y Bwrdd Gweithredol:

"Teimlai'r bobl ifanc eu bod wedi eu grymuso'n wleidyddol drwy'r profiad ac mae arnynt eisiau dal ati i wneud y gwaith yma"

Mae pobl ifanc yn edrych ar ysgolion fel eu prif ryngwyneb â'r byd ffurfiol. Buont yn trafod problemau gyda'r cwricwlwm a'r angen i gryfhau'r cwricwlwm ABCH (Addysg Bersonol a Chymdeithasol). Eu ple oedd eu bod wedi blino ar ffocws academaidd y cwricwlwm. Dylai'r pwyslais fod ar y drysau y mae addysg yn eu hagor, yn hytrach nag ar ennill gradd benodol. Dyma'r pwysau sydd ar ysgolion mewn perthynas â hyn. Dywedodd un person ifanc am ei harholiadau TGAU celf – nid oes arni eisiau gwerthuso gwaith pobl eraill, dim ond eisiau peintio y mae hi. Darluniodd y person ifanc yma ei stori bersonol drwy gelfyddyd, a oedd yn cael ei arddangos yn ystod cyfarfod y Bwrdd Gweithredol.

Cafwyd trafodaeth ar straen arholiadau, sy'n dechrau'n gynt ac yn gynt. Roedd y negeseuon yn gymysg gyda rhai yn gofyn am gael llonydd, ac fe wnawn ni ofyn am gymorth, a rhai'n dweud eu bod angen help yn awr. Mae hyn yn beth anodd i'w reoli. Roedd y bobl ifanc yn awyddus i'r cwricwlwm gael ei grebachu a chynnwys gwaith ar sgiliau bywyd – sut i gydbwyso cyllideb / talu morgais. Awgrymwyd bod Canolbarth a Gorllewin Cymru yn arwain ar y cwricwlwm newydd ar les; gellid cynnwys y bobl ifanc hyn fel bod eu barn yn cael ei chynnwys yn

y datblygiad.

Mae'r bobl ifanc hefyd yn credu y dylid rhoi sylw i wrth-fwlio drwy'r flwyddyn ac nid ym mis Tachwedd yn unig. Nid oedd arnynt eisiau dweud wrth athrawon yn uniongyrchol pan oedd ganddynt broblem gyda bwlio. Byddai'n well ganddynt gael gwefan neu ap i rieni a phlant i'w defnyddio yn lle hynny. Cytunwyd y câi gwefan gwrth-fwlio ei datblygu ar wefan y Bwrdd gyda gwybodaeth i bobl ifanc.

Cytunai'r Bwrdd Gweithredol fod angen symud y materion hyn ymlaen i sicrhau bod y bobl ifanc yn gwybod bod eu mewnbwn yn ystyrlon ac yn werth chweil. Gwnaeth cynrychiolydd rhanbarthol y Cyfarwyddwyr Addysg ymrwymiad i'r bobl ifanc i fwydo hyn yn ôl i'r Cyfarwyddwyr Addysg eraill yn y rhanbarth ac ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru). Mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, dywedai'r bobl ifanc yr hoffent gael gwybodaeth ffeithiol nid "propaganda wallgof". Dywedent eu bod yn gallu penderfynu drostynt eu hunain. Roedd y Bwrdd Gweithredol yn cydnabod bod yna ddadl rhwng dull lleihau niwed a dull ymatal a chytunwyd y byddai'r negeseuon hyn yn cael eu bwydo i'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gasglu llais pobl ifanc, yn hytrach nag oedolion yn gwneud penderfyniadau ynghylch problemau Camddefnyddio Sylweddau pobl ifanc.

Bu cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Addysg y Rhanbarth yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Iau, CADW, yn Chwefror 2018 i adrodd yn ôl ar y materion a godwyd gan y bobl ifanc. Dywedodd fod eu sylwadau wedi eu bwydo i mewn ac wedi dylanwadu ar y gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud ar y cwricwlwm newydd, a bod mwy o waith yn cael ei wneud yn rhanbarthol i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau mewn ysgolion.

Ymgynghorwyd ag aelodau CADW ynglŷn â'u barn am Gynllun Blynyddol y Bwrdd 2018-19. Gofynasant am aliniad cryfach â blaenoriaethau'r Bwrdd Uwch a thasgau penodol y gallent hwy gymryd perchnogaeth ohonynt a'u datblygu. Bydd y tasgau hyn yn cael eu nodi gan grŵp CADW mewn cyfarfodydd yn y dyfodol gyda'r nod bod y bobl ifanc yn datblygu rhai prosiectau gwaith eu hunain i gefnogi blaenoriaethau strategol ein Bwrdd CADW/CYSUR/CWMPAS.

CADW a Bethany, aelod o Warcheidwaid Iau Sir Benfro:

"Mae'r gwaith yma wedi gwneud y fath wahaniaeth yn fy mywyd ac rydw i'n danbaid ynghylch rhoi llais i bobl ifanc ar lefel leol, genedlaethol a lefel y Deyrnas Unedig."

Enghraifft dda o sut mae llais pobl ifanc yn cael ei glywed ac yn cael ei hyrwyddo o fewn y rhanbarth yw Bethany, aelod CADW ac un o Warcheidwaid Iau Sir Benfro, sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei chlywed ac yn her i oedolion, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol, i feddwl am farn y bobl ifanc y mae hi'n eu cynrychioli. Bu Bethany, sydd hefyd yn aelod o'r Senedd Ieuenctid, yn fuddugol yng nghategori Gwirfoddolwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Cyflawnwyr Ifanc Radio Sir

Benfro am ei gwaith caled a'i hymrwymiad i hawliau plant a phobl ifanc. Bu Bethany hefyd yn cynrychioli Senedd Ieuenctid y DU a thraddododd araith yn Nhŷ'r Cyffredin o blaid rhoi pleidlais i bobl ifanc. Rydym yn falch o gael pobl ifanc o safon Bethany, yn cymryd rhan yn ein Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl ifanc.

Fel rhan o ymgynghoriad, gofynnwyd i Fwrdd CADW sut roedd orau ganddynt gyfathrebu â'r Bwrdd Uwch. Yn yr ymateb roedd gwefan gyda rhagor o wybodaeth am y Bwrdd wedi'i hanelu at bobl ifanc a'r cyfryngau cymdeithasol hygyrch. Ers hynny, mae Cydgysylltydd Busnes y Bwrdd wedi datblygu'r wefan i gynnwys tudalennau penodol i bobl ifanc gydag adborth rheolaidd gan CADW ar y cynnwys. Bellach mae gan y Bwrdd Dudalen Facebook a chyfrifon Twitter. Twitter fu'r ffordd fwyaf llwyddiannus o ymgysylltu â phobl ifanc eleni gyda llawer o ryngweithio rhwng y Bwrdd, sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol a phobl ifanc.

Roedd aelodau'r **Grŵp Diogelu a Chyfranogi Iau 'bwyta moron a bod yn ddiogel rhag eliffantod' Powys** yn rhan hanfodol o'r broses ymgynghori gwefan/cyfryngau cymdeithasol ac fe wnaethant ddarparu adborth cychwynnol ardderchog i roi arweiniad sut roedd ar y bobl ifanc eisiau i ni

gyfathrebu â hwy. Eleni mar grŵp Bwyta Moron Powys yn canolbwyntio ar wella addysg rhyw, drwy gynnwys materion LGBTQ + ac addysgu mewn grwpiau bach. Materion eraill sy'n dal yn flaenoriaeth i'r bobl ifanc ym Mhowys yw cynnwys y cwricwlwm ABCH, deall proses Amddiffyn Plant a mynd i'r llys, a pherthnasoedd diogel iach.

Fe wnaeth **'Sêr Saff' Ceredigion a Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion** roi cefnogaeth lawn i weithgareddau rhanbarthol ar gyfer yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol (NSGW). Fel paratoad ar gyfer yr wythnos cynhaliodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion gystadleuaeth dylunio poster diogelu gyda phobl ifanc sy'n mynychu clybiau ieuenctid a phobl ifanc sy'n

ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid seiliedig mewn Ysgolion Uwchradd ledled y sir. Derbyniasant 50 ymgais gan bobl ifanc 11-16 oed ar draws y Sir. Canolbwyntiai'r posteri ar ein thema leol ar gyfer NSGW, diogelwch seiber – gosodwyd pwyslais arbennig ar fwlio seiber a secstio. Cyfarfu bwrdd cynllunio lleol NSGW i benderfynu ar 5 i fynd i'r rownd derfynol. Rhoddwyd bagiau o bethau da y Gwasanaeth Ieuenctid i'r 5 a chafodd eu posteri eu cylchredeg yn y wasg yn ystod NSGW. Dyluniwyd y poster buddugol, 'Cyber Bullying – don't be mean behind the screen', gan Tyler o Ysgol Penglais a Chlwb Ieuenctid Penparcau. Roeddem yn hoffi'r ymadrodd hwn gymaint fel y cafodd ei ddefnyddio hefyd fel sail i holl 'sgriniau selfie' NSGW a ddefnyddiwyd ar draws y rhanbarth yn ystod NSGW.

Bu Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth ag adran ddrama Prifysgol Aberystwyth ac Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig a disgyblion i greu ffilm fer yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein ymhlith pobl ifanc, yn enwedig i amlygu ac ysgogi trafodaethau ynglŷn â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio Snapchat, i gael ei defnyddio fel adnodd addysgol o fewn ysgolion a cholegau yng Ngheredigion. Rhoddwyd y ffilm i mewn i gystadleuaeth Diwrnod Rhyngrwyd Mwy Diogel Llywodraeth Cymru 2018. Y thema eleni oedd ' Creu, cysylltu a rhannu parch'. Gofynnai'r gystadleuaeth i blant a phobl ifanc archwilio a mynegi sut mae bod ar-lein yn gwneud iddynt deimlo drwy eiriau, ffilm, cerddoriaeth neu gelf. Yn dilyn proses feirniadu drylwyr, gosodwyd y ffilm ar y rhestr fer ar gyfer y rownd derfynol. Gwahoddwyd y grŵp i fynd i ddigwyddiad Diwrnod Rhyngrwyd Mwy Diogel 2018, oedd yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, Grid y De-orllewin ar gyfer Dysgu a Chanolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU yn adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd ddydd Mawrth 6 Chwefror 2018. Daeth ffilm fer Ceredigion yn ail yng nghategori Uwchradd y gystadleuaeth, wedi ei dewis allan o 300 o geisiadau ar draws Cymru.

Lansiodd pobl ifanc o **Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin** addewid iechyd meddwl. Lansiodd Harriet Alsop-Bingham, merch yn ei harddegau o Sir Gaerfyrddin, #StoriHarriet ar ran y Cyngor Ieuenctid. Mae #StoriHarriet yn annog pobl i addo dechrau sgwrs. Mae Harriet, sy'n 17 oed, wedi wynebu anawsterau personol ac wedi dioddef creulondeb oddi wrth grŵp o fwlis ers pan oedd yn 11 oed, oedd yn ei harteithio hi hyd nes yr oedd hi'n teimlo mor ddiwerth iddi

ddechrau niweidio'i hun ac i'w hiechyd meddwl ddirywio. Mae Harriet wedi dangos nerth a dewrder wrthi oresgyn yr anawsterau personol hyn ac roedd yn awyddus i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc eraill. Sylweddolodd Harriet y gallai dechrau sgwrs wneud gwahaniaeth enfawr i fywyd rhywun ac mae addewid #StoriHarriet yn gofyn i bobl o bob oed addo dechrau sgwrs gan y gallai newid bywyd.

Daeth ysbrydoliaeth i hyrwyddo materion iechyd meddwl a chychwyn #StoriHarriet o ganlyniad i ennill gwobr Plentyn Dewr Radio Sir Gaerfyrddin 2017, mewn cydnabyddiaeth o'r cryfder, yr ysbryd a'r dewrder a ddangosodd Harriet yn ystod ei hanawsterau personol. Crëwyd #Storiharriet gyda chefnogaeth cyd-aelodau ar Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin.

Mae stori ysbrydoledig Harriet wedi rhoi anogaeth a chymorth i eraill ac mae'r Bwrdd yn falch iawn o Harriet a'r Cyngor Ieuenctid am dynnu sylw at y pwnc pwysig ac anodd hwn ac yn gobeithio y bydd pobl yn parhau i gefnogi ac arwyddo addewid Harriet.

If you would like to read Os hoffech chi ddarllen stori Harriet neu gefnogi a llofnodi'r addewid, yna ewch i www.youthsirgar.org.uk/ourwork/storiharriet

I gefnogi'r thema hon, cynhaliodd Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin gynhadledd ieuenctid ' Diwrnod Gwael ydy o, nid Bywyd Gwael', yn canolbwyntio ar iechyd meddwl pobl ifanc.

Cynhaliodd **Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro** gynhadledd ddiogelu iau yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2017 o dan y thema ranbarthol, 'Cam-drin a chamfanteisio ar-lein'. Mynychwyd y gynhadledd hon gan 9 ysgol uwchradd ac 1 ysgol annibynnol ar draws Sir Benfro. Roedd yr agenda yn cynnwys cyflwyniad i ddiogelu, gweithdai ar gadw'n ddiogel ar-lein a thasg gynllunio ar sut i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu a chadw'n ddiogel ar-lein o fewn eu hysgolion. Fel rhan o'r gwerthusiad ar y diwedd, gofynnwyd i'r bobl ifanc ddewis un gair o blith 12 i ddisgrifio sut roeddent yn teimlo ar ôl y diwrnod. Y tri gair mwyaf poblogaidd oedd 'cymhelliant', 'ysbrydoliaeth' a 'gwybodaeth'.

Pobl ifanc yng Nghynhadledd Ddiogelu Sir Benfro:

"Cymhelliant Ysbrydoliaeth. Gwybodaeth."

Oherwydd llwyddiant y gynhadledd hon, mae Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro wedi cael eu gosod ar y rhestr fer gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Anrhydedd yng nghategori Dulliau Effeithiol o Ddiogelu. Cawn wybod y canlyniad ym mis Medi a rhoddir diweddariad ar hyn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. Croesi bysedd!

Cafodd y Gwarcheidwaid Iau eu cyfweld hefyd gan aseswyr ar gyfer y Marc Ansawdd am Waith

Ieuenctid yng Nghymru ar lefel Arian. Roedd hwn yn brofiad da iawn a nodwyd y grŵp fel arfer da ac esiampl gadarnhaol o ymarfer cyfranogi.

Fe wnaeth pobl ifanc Sir Benfro gefnogi gweithgareddau NSGW yn llawn mewn clybiau ieuenctid ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaeth clwb ieuenctid Aberdaugleddau gynnal gweithdai ar ddiogelwch seiber a gwrth-fwlio, gan ddatblygu posteri ar gyfer y ganolfan ieuenctid.

Ffurfiodd rhai aelodau o'r Gwarcheidwaid Iau ran o banel cyfweld i benodi Pennaeth newydd Gwasanaeth Plant Sir Benfro. Buont yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion drwy gydol y broses a rhoesant adborth i'r Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr ar eu barn.

Penderfynodd Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro fod arnynt eisiau gweithio gyda Fixers UK ar greu adnodd ar fater cymdeithasol. Drwy fynychu cyfarfodydd amrywiol gan gynnwys digwyddiad Lles Rhanddeiliaid Sir Benfro a siarad ag amryw o bobl ifanc, sylwasant fod iechyd meddwl yn fater oedd yn codi'n aml. Fel y dywedodd cynrychiolwyr Senedd y DU ar gyfer Sir Benfro roedd y grŵp yn annog pobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad 'Make Your Mark' – Cymerodd 3041 o bobl ifanc ran yn Sir Benfro, ac roedd 474 ohonynt wedi pleidleisio i'r ymgyrch genedlaethol fod ar Iechyd Meddwl. Ystyriai'r grŵp y dylid gwneud mwy o waith ynghylch adeiladu gwytnwch pawb – os byddwn yn adeiladu gwytnwch, dylai wella materion iechyd meddwl nid yn unig i bobl ifanc, ond i oedolion hefyd. Ar y sail hon, penderfynodd y Gwarcheidwaid Iau ar y sylfaen ar gyfer fideo **'Labeli'**.



Er mwyn creu'r fideo hwn, gofynasant i bobl ifanc mewn grwpiau amrywiol awgrymu ffyrdd i ddatblygu gwytnwch a sôn am eiriau sarhaus yr oeddent hwy fel pobl ifanc wedi eu profi. Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd Gwarcheidwaid Sir Benfro yn anelu at ddatblygu gweithdy o gwmpas fideo 'labeli' i edrych i mewn ymhellach i wytnwch ac i hyrwyddo'r gwaith y maent wedi ei wneud eisoes i helpu cynifer o bobl ifanc ag sydd modd.

Yn ystod 2017/18 datblygodd Canolbarth a Gorllewin Cymru ei strategaeth ar y cyd gyntaf i gael ei chyhoeddi yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y bydd y rhanbarth yn cefnogi unrhyw un sydd yn profi neu wedi profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod, drwy alw troseddwyr i gyfrif, sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr offer a'r wybodaeth i weithredu, cynyddu ymwybyddiaeth o'r broblem a sut i gael gafael ar gymorth a helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb o fewn perthynas, a bod ymddygiad ymosodol yn anghywir bob amser. Nodir bod ymgysylltiad goroeswyr yn egwyddor allweddol sy'n greiddiol i'r strategaeth.

I lywio datblygiad y strategaeth, cynhaliwyd naw o grwpiau ffocws ar draws y rhanbarth gyda 56 o oroeswyr sydd wedi cymryd rhan mewn gwasanaethau. Cynhaliwyd un grŵp o leiaf ym mhob ardal awdurdod lleol gyda grwpiau ffocws penodol ar gyfer goroeswyr gwrywaidd ac unigolion oedd wedi dioddef trais rhywiol a

chamdriniaeth. Diben y grwpiau ffocws oedd deall yn well brofiadau goroeswyr camdriniaeth ddomestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod yn y rhanbarth pan oeddent yn dod am gymorth, eu barn ynglŷn ag atal Camdrin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ac ystyriaethau pwysig ar gyfer y strategaeth. Roedd goroeswyr yn nodi "beth sy'n gweithio", yn tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella.

Aethpwyd â'r strategaeth yn ôl i oroeswyr am eu barn a'u sylwadau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, gan roi cyfle iddynt ystyried sut roedd eu mewnbwn wedi siapio a llywio'r ddogfen ddrafft. Cynhaliwyd cyfanswm o 8 o grwpiau ffocws ar draws y rhanbarth yn ogystal â chyfweliadau 1-i-1 gyda chyfanswm o 56 o oroeswyr oedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ymgynghori.

Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cydweithio gyda goroeswyr a defnyddwyr gwasanaethau, sydd yn 'arbenigwyr trwy brofiad' o ran beth sydd wedi gweithio iddynt hwy, eu llwybrau drwy wasanaethau a pha mor hawdd (neu anodd) y mae hi wedi bod i ddod o hyd i'r gwasanaeth iawn a symud tuag at annibyniaeth a rhyddid rhag camdriniaeth.

Mae lleisiau a phrofiadau goroeswyr wedi bod yn ganolog o ran llywio a siapio datblygiad y Strategaeth a rhaid iddynt barhau fel elfen annatod o'i chyflawni a'i monitro wrth fynd ymlaen.

Heb fewnbwn a barn y goroeswyr ni allwn lunio darpariaeth gwasanaeth i fod yn ymatebol i anghenion unigol iawn dioddefwyr a goroeswyr, ac mae eu canfyddiadau hwy yn darparu'r cyfle parhaus i hysbysu, mireinio a gwella gwasanaethau. Drwy gydol y digwyddiadau ymgysylltu cafwyd adborth cyson gan oroeswyr am eu rôl barhaus o ran datblygu, darparu a monitro'r strategaeth ranbarthol.

Caiff strategaeth VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru, 'Bywydau mwy Diogel, Perthynas Iachach' ei dilysu ym Mwrdd Gweithredol mis Gorffennaf a chaiff ei chyhoeddi yn y flwyddyn sy'n dod.

O ran ymgysylltu ag oedolion, bu'r Byrddau yn cynnal ymgynghoriad â Phobl yn Gyntaf Sir Benfro i weithio tuag at ddatblygu fersiwn hawdd ei darllen o'u Cynllun Blynyddol. Mae Bwrdd CWMPAS yn cydnabod o fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru bod y cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion i gyfrannu a chymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd wedi bod yn brin iawn. Mae hyn yn flaenoriaeth i Fwrdd CWMPAS yn y flwyddyn sydd i ddod ac yn ffocws allweddol i'n rhanbarth yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2018.



(ng) Ceisiadau am orchmynion amddiffyn a chymorth i oedolion

Ni wnaed ceisiadau am orchmynion amddiffyn a chymorth i oedolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod 2017-18. Mae'r Bwrdd yn gwybod bod y duedd hon yn adlewyrchu gweithgaredd yn ardaloedd Byrddau Diogelu eraill ac mae'n croesawu unrhyw sylwadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r rhesymau tebygol am hyn.

(h) Gwybodaeth neu ddysgu y mae'r byrddau wedi eu lledaenu a'r hyfforddiant a argymhellwyd neu a ddarparwyd

Y Wefan

Yn y flwyddyn ddiwethaf buddsoddwyd cryn dipyn o amser ac adnoddau mewn ddatblygu **gwefan y Bwrdd**. Datblygwyd cynnwys drwy gynyddu a gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y byrddau, eu swyddogaethau a'u gwaith amlasiantaethol ar y cyd. Y gobaith yw y bydd y wefan yn ganolbwynt canolog ar gyfer gwybodaeth am ddiogelu gyda chysylltiadau â'r holl bolisïau a gweithdrefnau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae yna wybodaeth ddefnyddiol hefyd ar sut i adrodd am bryder a'r hyfforddiant sydd ar gael a ddarperir yn y rhanbarth. Caiff holl Adroddiadau Adolygu Ymarfer eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd am gyfnod o 12 wythnos, yn unol â deddfwriaeth, ac ar ôl hynny byddant ar gael ar gais.

Defnyddir y wefan hefyd fel cyfrwng i hyrwyddo digwyddiadau diogelu, rhannu dysgu ac arfer da. Enghreifftiau o'r rhain yw:

- Enghraifft o hyrwyddo digwyddiadau diogelu yw Prosiect Gwirionedd IICSA, oedd yn Aberystwyth ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf



ac yn cael ei hyrwyddo'n gryf ar y wefan.
- Enghraifft o ddysgu a rennir yw'r adolygiad thematig a gomisiynwyd yn rhanbarthol ar hunanladdiadau tebygol a chanllawiau ymarfer, sydd ar gael i'r cyhoedd.
- Enghraifft o arfer da o ardaloedd eraill yw clip fideo a gynhyrchwyd gan Gyngor Dinas Nottingham **'nas dygwyd – nad oedd yn bresennol'**, sydd ar y wefan ac a rannwyd yn rhanbarthol gyda chaniatâd o Nottingham.

Hyfforddiant

Fel yr amlinellir yn rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol sicrhau bod ymarferwyr yn eu hardal yn cael mynediad at hyfforddiant ac yn derbyn yr hyfforddiant y mae arnynt ei angen mewn amddiffyn plant ac oedolion.

Mae llawer o'r gwaith a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf gan yr Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi bod mewn perthynas â datblygiad parhaus Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol amlasiantaethol. Rhoddodd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a gwblhawyd y llynedd dystiolaeth i'r grŵp a sicrwydd bod hyfforddiant diogelu ar gael ac yn cael ei ddarparu ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol ar bob lefel, a bod rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr yn eu lle sy'n targedu grwpiau amrywiol o staff o fewn sefydliadau. Mae strwythur a darpariaeth hyfforddiant diogelu ar draws asiantaethau yn amrywio yn ôl trefniadau llywodraethu mewnol a fframweithiau hyfforddiant y sefydliad ei hun. Er enghraifft, mae sefydliadau iechyd yn dilyn DOGFEN RYNG-GOLEGOL sgiliau craidd y DU 2016 a Diogelu Plant a Phobl Ifanc: rolau a chymwyseddau ar gyfer staff gofal iechyd Mawrth 2014, ac mae'n ofynnol i'r Heddlu sicrhau bod hyfforddiant yn cydymffurfio â gofynion gorfodol fel y'u nodir gan y Coleg Plismona Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gan yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid i Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda'i gilydd ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu sydd wedi'u diffinio'n glir fel yr amlinellwyd yn rhan 7 y Ddeddf.

Gweithiwr Diogelu Proffesiynol:

"Adborth da iawn gan yrwyr tacsi. Maen nhw'n danfon plant i'r ysgol ac felly mewnbwn da."

Mae'r hyfforddiant diogelu penodol a ddarparwyd o fewn y rhanbarth neu a gefnogwyd gan y Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

Adborth gan un oedd yn bresennol:

"Ardderchog. Hyfforddiant gwerthfawr iawn – hoffwn gael rhagor."

- Mae'r hyfforddiant a drefnwyd y llynedd mewn perthynas â **gweithio gyda theuluoedd anodd, heriol a gochelgar** bellach wedi ei gyflwyno'n helaeth gan asiantaethau unigol i nifer fawr o staff ar draws y rhanbarth.
- Mae'r enghreifftiau o drefniadau sydd yn eu lle ar lefel asiantaethau lleol yn cynnwys hyfforddiant a ddarperir i **Lywodraethwyr Ysgol**, fel yr amlinellir yng Nghanllawiau'r Dysgwr Mwy Diogel.
- Mae Cyngor Sir Powys, mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn parhau i gynnal chwe **fforwm hyfforddiant amlasiantaethol** bob blwyddyn ar draws Powys. Mae'r themâu a'r pynciau a dargedir eleni yn cynnwys Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a gweithio gyda theuluoedd anodd a gochelgar.
- Mae'r meddyg enwebedig o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi darparu sesiwn hyfforddi i **feddygon teulu** yn yr ardal, mewn perthynas â'r ddogfen ranbarthol cymhwystra ar gyfer cymorth a'r trothwy 'Y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn'.

- Darparwyd hyfforddiant diogelu ar draws y pedwar Awdurdod Lleol i niferoedd mawr o **Yrwyr Tacsi** i godi ymwybyddiaeth o faterion megis Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Masnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern.
- Er bod gan bob asiantaeth a sefydliad gyfrifoldeb unigol o dan ddeddfwriaeth **VAWDASV** i gynllunio a chyflwyno eu cynlluniau hyfforddiant eu hunain mewn perthynas â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, mae'r Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol, gyda chymorth Grŵp Strategol VAWDASV Rhanbarthol, wedi ystyried y gofynion hyfforddiant cychwynnol o safbwynt amlasiantaethol rhanbarthol. Canolbwyntiwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar y cyfrifoldeb i ddarparu hyfforddiant i grwpiau mawr o staff yn Grŵp 1 sydd wedi ei reoli'n unigol gan asiantaethau. Mae'r grŵp hyfforddiant wedi cydnabod y potensial ar gyfer cydweithio a chreadigrwydd wrth ddarparu peth o'r hyfforddiant haen uwch wrth fynd ymlaen.
- Aeth naw cynrychiolydd o ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ar hyfforddiant cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cadeiryddion Paneli ac Adolygwyr Annibynnol i gynorthwyo Byrddau Diogelu Rhanbarthol gyda **phroses Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion**. Cynrychiolwyd y rhan fwyaf o bartneriaid statudol allweddol y Bwrdd sydd cynyddu'n sylweddol y gronfa o staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas o fewn y rhanbarth.

- Bu'r Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol yn cynorthwyo ac yn cefnogi nifer o staff amlasiantaethol ar draws y rhanbarth i fynychu hyfforddiant, oedd yn cael ei hwyluso a'i drefnu gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ar **Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion**.
- Cyflwynodd BAWSO sesiwn hyfforddi 'cinio a dysgu' i'r Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio **Caethwasiaeth Fodern** pan gaiff dioddefwyr posibl eu hadnabod.

Wrth i'r Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol barhau i ddatblygu ac aeddfedu bydd ganddo rôl fwy penodol a chanolog mewn darparu hyfforddiant diogelu ar draws y rhanbarth a bydd yn gallu cynnig lefel well o arweiniad a chymorth i asiantaethau ynghylch darparu hyfforddiant diogelu.

(i) Sut mae'r byrddau diogelu wedi gweithredu cyngor gan lywodraeth cymru a'r bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol

Ni chyhoeddwyd unrhyw gyngor penodol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Cadeiryddion Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn parhau i weithio'n agos gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ar feysydd a nodwyd lle mae'n ystyried y gallai canllawiau polisi mwy cadarn a deddfwriaeth wella ymarfer diogelu.

Esiampl o fater ffurfiol sydd wedi ei godi gyda Llywodraeth Cymru yw'r angen i gryfhau arferion recriwtio ar gyfer gweithwyr Iechyd a all ddod i gysylltiad ag oedolion mewn perygl ac yn arbennig yr angen i egluro beth a ddisgwylir mewn perthynas ag archwiliad y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar gyfer staff a ddechreuodd eu cyflogaeth cyn i'r system wirio DBS gael ei rhoi ar waith. Mae achos mewn Awdurdod Iechyd cyfagos lle y cafwyd cyn-gyflogai yn euog o lofruddiaeth wedi amlygu diffygion ym mhrosesau recriwtio adnoddau dynol ac arferion anghyson. Safbwynt y Bwrdd yw bod angen arweiniad cliriach ar yr hyn a ddisgwylir ar draws gweithluoedd partneriaethol amlasiantaethol. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gael perthynas waith gadarnhaol gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sydd wedi cefnogi Bwrdd CYSUR yn ei waith parhaus ar Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae'r Bwrdd wedi ystyried ac wedi gweithredu ar adborth a chyngor ynglŷn â sut y gall y Bwrdd ddangos yn well y gwaith da a wneir a'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd wrth gyflwyno ei adroddiad blynyddol.

Y gwahaniaeth yr ydym ni'n ei wneud gyda'n gilydd

Mae agenda strategol glir a phenodol yn cefnogi gweithio ar y cyd ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol, sydd wedi galluogi Byrddau CYSUR a CWMPAS i weithio gyda'i gilydd i helpu i wella bywydau dinasyddion a'r cymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Byrddau Gweithredol yn parhau i gefnogi ac arwain eu His-grwpiau drwy gyfrwng cyfres o fentrau ar y cyd a phrosiectau i helpu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion fel yr amlinellwyd yn rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gwaith Byrddau CYSUR a CWMPAS ar y cyd yn cefnogi ffocws strategol trosfwaol ar ddiogelu pobl, sy'n cyd-fynd yn llwyr ag ysbryd ac egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gwaith y Byrddau wedi cael effaith uniongyrchol ar arferion proffesiynol. Mae enghreifftiau yn cynnwys lledaenu'r ymchwil a gomisiynwyd, a gynhaliwyd gan CASCADE, i hunanladdiadau tebygol ymysg plant ac oedolion ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a gweithredu canllawiau ymarfer ar gyfer gweithio gyda phlant rhieni sydd ag afiechyd meddwl, fydd yn gymorth i gefnogi a gwella ymatebion proffesiynol i'r rhai mewn angen ac mewn perygl.

Mae gwaith y Byrddau ar drothwyon wedi hyrwyddo ymateb mwy cyson i'r rheiny sydd angen gwasanaethau. Mae lansio dogfen cymhwystra i dderbyn cymorth a'r trothwy rhanbarthol, y 'Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn', a'r gwaith sy'n mynd ymlaen ar drothwyon ar gyfer ymarfer diogelu oedolion yn cefnogi ac yn hyrwyddo ymatebion proffesiynol amserol i'r bobl sydd fwyaf mewn angen ac sydd mewn perygl.

Mae gweithredu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd am Berfformiad wedi helpu'r Bwrdd Gweithredol i ddechrau deall arferion diogelu yn well o fewn cyd-destun rhanbarthol. Mae dadansoddiad o themâu a thueddiadau rhanbarthol o ran ymholiadau amddiffyn plant ac oedolion, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Plant sy'n Derbyn Gofal a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi bod o gymorth i lywio gwaith a ffocws y Byrddau yn y dyfodol. Cynhelir archwiliadau thematig rhanbarthol mewn perthynas ag ymchwiliadau Adran 47 ac ystyriaeth o alluedd meddyliol mewn asesiadau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod o ganlyniad i'r themâu a'r tueddiadau a nodwyd.

Mae Bwrdd CYSUR yn arbennig o falch o CADW, sef ei Fwrdd Diogelu Iau, a'r Grwpiau Diogelu Iau lleol ategol ynghyd â'r partneriaethau ieuenctid ar draws y rhanbarth. Mae'r berthynas gryfach â'r grwpiau wedi galluogi'r Bwrdd i ddeall diogelu yn well o safbwynt person ifanc ac mae wedi hyrwyddo'u safbwyntiau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod mae Bwrdd CWMPAS yn edrych ymlaen at ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion a'u galluogi i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

Geirfa:

APR/CPR – Adolygiad Ymarfer Oedolion / Adolygiad Ymarfer Plant

MAPF – Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol

VAWDASV – Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol

MACSE/CSE – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol / Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

LOG – Grŵp Gweithredu Lleol

NSGW – Wythnos Ddiogelu Genedlaethol

ERW – Gweithio Rhanbarthol mewn Addysg

EHE – Addysg Ddewisol yn y Cartref

NISB – Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

DoLS – Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

CIW – Arolygiaeth Gofal Cymru

IICSA – Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol

PRUDiC – Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod

ACEs – Profiadau Andwyol mewn Plentyndod

PTHB – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

CYPP – Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

CAMHS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc

MARAC – Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol

MAPPA – Trefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd

PHW – Iechyd Cyhoeddus Cymru

NST – Tîm Diogelu Cenedlaethol

WAST – Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

DPP – Heddlu Dyfed Powys

YJS – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

NPS – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

CRC – Cwmni Adsefydlu Cymunedol

SoS – Arwyddion Diogelwch

PSE – Addysg Bersonol a Chymdeithasol

ADEW – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru

LGBTQ+ – Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwestiynu a Mwy

DBS – Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd